



QAA

Prifysgol Caerdydd

MAI 2008

Adolygiad sefydliadol

RG 387 08/08

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2008

ISBN 978 1 84482 869 2

Mae holl gyhoeddiadau'r ASA ar gael ar ein www.qaa.ac.uk

Gallwch gael copïau mewn print o gyhoeddiadau cyfredol o:

Linney Direct

Adamsway

Mansfield

NG18 4FN

Ffôn 01623 450788

Ffacs 01623 450481

Ebost qaa@linneydirect.com

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Rhagair

Pwrpas yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA) yw diogelu diddordeb y cyhoedd mewn cymwysterau addysg uwch (AU) o safon gadarn ac annog gwelliant parhaus yn y ffordd y mae ansawdd AU wedi'i reoli.

I wneud hyn, mae'r ASA yn gwneud adolygiadau o sefydliadau AU unigol (prifysgolion a cholegau AU). Yng Nghymru, rydym yn adnabod y broses hon fel adolygiad sefydliadol. Mae'r ASA yn gweithredu prosesau tebyg, ond ar wahân, yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Pwrpas adolygiad sefydliadol

Amcan adolygiad sefydliadol yw diwallu'r angen sydd gan y cyhoedd am gael gwybod yn sicr bod prifysgolion a cholegau yn:

- darparu cymwysterau a dyfarniadau AU o ansawdd derbyniol ac o safon academiaidd briodol
- arfer eu galluoedd cyfreithiol i ddyfarnu graddau yn y ffordd gywir.

Barn yr adolygiad

Mae adolygiad sefydliadol yn rhoi barn am y sefydliadau y mae'n eu hadolygu. Mae'n rhoi barn am:

- ba mor hyderus y gallwch fod o gadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd ei raglenni a safonau academiaidd ei ddyfarniadau.
- faint y gallwch ddibynnu'n rhesymol ar gywirdeb, cyfanrwydd a gonestrwydd yr wybodaeth y mae'r sefydliad yn ei chyhoeddi, ac ar ansawdd ei raglenni a safonau ei ddyfarniadau.

Mae'r adolygiad yn mynegi eu barn fel naill ai hyderus, hyder cyfyngedig neu ddim hyder ac mae'n rhoi esiamplau o arferion da ac argymhellion ar gyfer gwella.

Safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol

Mae adolygiad sefydliadol yn defnyddio cyfres o bwyntiau cyfeirio y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, sy'n dwyn y teitl 'Seilwaith Academiaidd', i ystyried safonau ac ansawdd sefydliad. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi gan yr ASA ac maen nhw'n cynnwys:

- *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ) sy'n cynnwys disgrifiadau o wahanol gymwysterau AU*
- *Y Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academiaidd mewn addysg uwch*
- datganiadau meincnod pynciau, sy'n disgrifio nodweddion graddau mewn gwahanol bynciau
- canllawiau ar gyfer paratoi manylebau rhaglenni, sef disgrifiadau o'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr mewn rhaglenni astudio unigol. Maen nhw'n amlinellu pa wybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth a nodweddion fydd gan fyfyrwr sy'n cwblhau'r rhaglen honno'n llwyddiannus. Maen nhw hefyd yn rhoi manylion y dulliau addysgu ac asesu ac yn cysylltu'r rhaglen gyda'r FHEQ.

Y broses adolygu

Mae timau o bobl academiaidd yn gwneud yr adolygiadau sefydliadol ac maen nhw'n adolygu'r ffordd y mae sefydliadau'n goruchwyllo eu safonau a'u hansawdd academiaidd. Am eu bod nhw'n gwerthuso eu cymheiriad, enw'r broses yw 'adolygiad cymheiriol'.

Dyma brif elfennau adolygiad sefydliadol:

- ymweliad cyntaf gan yr ASA â'r sefydliad naw mis cyn yr ymweliad adolygu
- dogfen hunan-werthusiad wedi'i chyflwyno gan y sefydliad bedwar mis cyn yr ymweliad adolygu
- cyflwyniad ysgrifenedig gan gorff cynrychioli'r myfyrwyr, os ydynt wedi dewis gwneud un, bedwar mis cyn yr ymweliad adolygu
- ymweliad briffio manwl â'r sefydliad gan y tîm adolygu bum wythnos cyn yr ymweliad adolygu
- yr ymweliad adolygu, sy'n para pum diwrnod
- cyhoeddi adroddiad ar farn a chanfyddiadau'r tîm adolygu 22 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu.

Y dystiolaeth ar gyfer yr ymweliad

Er mwyn cael gafael ar y dystiolaeth ar gyfer ei feirniadaeth, mae'r tîm adolygu'n gwneud nifer o bethau, yn cynnwys

- adolygu dogfennau a threfnau mewnol y sefydliad ei hun, megis rheoliadau, datganiadau polisi, codau ymarfer, cyhoeddiadau recriwtio a chofnodion cyfarfodydd perthnasol, yn ogystal â'r ddogfen hunan-werthuso ei hun
- adolygu'r cyflwyniad ysgrifenedig gan y myfyrwyr
- gofyn cwestiynau i staff perthnasol
- siarad â myfyrwyr am eu profiadau
- archwilio sut mae'r sefydliad yn defnyddio'r Seilwaith Academaidd.

Mae'r tîm adolygu hefyd yn casglu dystiolaeth drwy ganolbwyntio ar esiamplau o brosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad ar waith gan ddefnyddio 'llwybrau thematig'. Gall y llwybrau yma ganolbwyntio ar ba mor dda mae prosesau sefydliadol yn gweithio mewn lleoliadau arbennig a thrwy'r sefydliad yn gyffredinol.

Rhaid i sefydliadau gyhoeddi gwybodaeth am ansawdd a safonau eu rhaglenni a'u dyfarniadau mewn fformat sydd wedi'i argymhell yn y ddogfen 04/05 *Gwybodaeth am ansawdd a safonau mewn addysg uwch*, sydd wedi'i chyhoeddi gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Cynnwys

Rhagair

Crynodeb	1
Cyflwyniad	1
Canlyniad yr adolygiad	1
Nodweddion arfer da	1
Argymhellion ar gyfer gweithredu	2
Cyferbwyntiau cenedlaethol	2

Y prif adroddiad **3**

Adran 1: Cyflwyniad – Prifysgol Caerdydd **3**

Y sefydliad a'i genhadaeth	3
Datganiad cenhadaeth	4
Darpariaeth gydweithredol	4
Gwybodaeth gefndirol	4
Y broses adolygu	5
Datblygiadau ers yr adolygiad ansawdd academaidd blaenorol	5

Adran 2: Ymchwiliadau'r adolygiad – prosesau sefydliadol **6**

Effeithlonrwydd fframwaith y sefydliad ar gyfer rheoli ansawdd a safonau gan gynnwys darpariaeth gydweithiol	6
Ystyriaeth y sefydliad o effeithlonrwydd y fframwaith	8
Bwriadau'r sefydliad ar gyfer gwella ansawdd a safonau	8
Prosesau cymeradwyo, monitro ac adolygu mewnol	10
Cymeradwyo rhaglenni	10
Adolygu a gwerthuso rhaglenni blynyddol	11
Adolygiad cynnydd ansawdd ac adolygiad cyfnodol	13
Cyfranogaeth allanol mewn prosesau adolygu mewnol	14
Asiantaethau allanol yn adolygu ac yn achredu lefel rhaglen	15
Arferion a gweithdrefnau asesu	16
Arholwyr allanol a'u hadroddiadau	18
Derbyn myfyrwyr a'r defnydd a wneir o ystadegau cynnydd a chwblhau	20
Cyferbwyntiau allanol	22
Cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel leol a sefydliadol	23
Adborth oddi wrth fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr	24
Gweithdrefnau ar gyfer cwynion ac apeliadau myfyrwyr	25
Sicrwydd ansawdd staff addysgu, penodi, gwerthuso a gwobrwyo	26
Sicrwydd ansawdd addysgu: cefnogaeth a datblygiad staff	27
Sicrwydd ansawdd yr addysgu a gyflenwir drwy ddulliau dosranedig ac o bell	28
Adnoddau cefnogi dysgu	29
Arweiniad, cefnogaeth a goruchwyliaeth academaidd	31
Cefnogaeth a chyfarwyddyd personol	32
Darpariaeth gydweithredol	33

Adran 3: Ymchwiliadau'r adolygiad – gwybodaeth gyhoeddedig	35
Profiad myfyrwyr o wybodaeth gyhoeddedig ac arall	35
Dibynadwyedd, cywirdeb a chyflawnrwydd gwybodaeth gyhoeddedig	36
Casgliadau	37
Effeithlonrwydd gweithdrefnau sefydliadol i sicrhau ansawdd rhaglenni	37
Effeithlonrwydd gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer sicrhau safon gwobrau	38
Effeithlonrwydd gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cefnogi dysgu	39
Cyfranogiad allanol mewn trefniadau sicrwydd ansawdd mewnol	40
Defnydd y sefydliad o gyferbwyntiau cenedlaethol	41
Sylwadau ar fwriadau'r sefydliad i wella ansawdd a safonau	41
Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth	41
Defnyddio'r ddogfen hunan werthusiad (SED) fel darlun o allu'r sefydliad i ystyried ei gryfderau a'i gyfyngiadau ei hun, a gweithredu ar y rhain er mwyn gwella ansawdd a safonau	42
Nodweddion o arfer da	42
Argymhellion ar gyfer gweithredu	42
Atodiad	
Ymateb Prifysgol Caerdydd i'r adroddiad ar yr adolygiad sefydliadol	44

Crynodeb

Cyflwyniad

Ymwelodd tîm o arolygwyr o'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) â Phrifysgol Caerdydd (y Brifysgol) o 28 Ebrill i 2 Mai 2008 i gynnal adolygiad sefydliadol. Amcan yr adolygiad oedd darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ansawdd y cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr ac am safonau academiaidd y gwobrau y mae'r Brifysgol yn eu cynnig.

Er mwyn gwneud casgliadau, siaradodd y tîm ag aelodau staff drwy'r Brifysgol gyfan ac â chynrychiolwyr myfyrwyr. Hefyd, darllenodd amrywiaeth mawr o ddogfennau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r Brifysgol yn rheoli agweddau academiaidd ei darpariaeth.

Defnyddir y geiriau 'safonau academiaidd' i ddisgrifio lefel y cyrhaeddiad y dylai myfyriwr ei chyflawni er mwyn ennill gwobr (gradd, er enghraifft). Dylai hyn fod yn lefel gyffelyb ar draws y Deyrnas Unedig (DU).

Mae ansawdd academiaidd yn fodd i ddisgrifio pa mor llwyddiannus y mae'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr yn eu hybu i gyflawni'r wobr. Mae hyn yn golygu sicrhau bod yr addysgu, y cymorth, yr asesu a'r cyfleoedd dysgu priodol yn cael eu darparu ar eu cyfer.

Mewn adolygiad sefydliadol, adolygir safonau academiaidd ac ansawdd academiaidd fel ei gilydd.

Canlyniad yr adolygiad

O ganlyniad i'w archwiliadau, barn y tîm adolygu am Brifysgol Caerdydd yw:

- y gellir bod yn hyderus yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad, a'i reolaeth debygol, yn rheolaeth ansawdd ei raglenni academiaidd yn y dyfodol ac yn safonau academiaidd ei gwobrau.

Nodweddion arfer da

Nododd y tîm adolygu'r meysydd canlynol fel rhai ag arfer da:

- ffurfioli a gweithredu'n systematig strategaethau gwella'r Brifysgol
- cyfraniad gweithgaredd ymchwil staff at ansawdd addysgu ac at ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr yn gyffredinol
- integreiddio datblygiad rhaglen gyda chynllun strategol ac adnoddau
- trefniadau a sefydlwyd gan y Brifysgol i sicrhau cyfranogiad myfyrwyr mewn prosesau sicrwydd ansawdd a phwyllgorau lefel sefydliad
- partneriaeth effeithlon rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i wella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr
- ymagwedd systematig tuag at gymorth i staff a datblygiad proffesiynol.

Argymhellion ar gyfer gweithredu

Mae'r tîm adolygu'n argymell i'r sefydliad:

- sicrhau bod cylchoedd gweithgareddau adolygu ar gyfer yr Adolygiad Cyfnodol ac Ail-ddilysu ac ar gyfer yr Adolygiad Cynnydd Ansawdd, yn digwydd o fewn yr amserlenni a nodwyd yng ngweithdrefnau'r Brifysgol.

Mae'r tîm adolygu'n ystyried y buasai'n ddymunol petai'r sefydliad:

- yn ystyried yr angen am atebolrwydd i bwyllgorau lefel ysgol y Senedd, yng nghydestun fframwaith y Brifysgol ar gyfer rheoli ansawdd a safonau academaidd
- yn adolygu'r polisiau a'r gweithdrefnau ar gyfer darpariaeth gydweithredol i sicrhau bod y risgiau arbennig sy'n gysylltiedig â'r maes gweithgaredd hwn yn cael eu canfod a'u rheoli'n briodol.

Cyferbwyntiau cenedlaethol

I sicrhau mwy o dystiolaeth i gefnogi eu canfyddiadau, bu'r tîm adolygu hefyd yn ymchwilio i'r defnydd a wnaed gan y Brifysgol o'r Seilwaith Academaidd a ddatblygwyd gan QAA ar ran y sector addysg uwch dros y DU i gyd. Mae'r Seilwaith Academaidd yn set o gyferbwyntiau y cytunwyd arnyn nhw i helpu i ddiffinio arfer da a safonau academaidd fel ei gilydd.

Mae darganfyddiadau'r adolygiad yn awgrymu bod y Brifysgol yn gwneud defnydd llawn ac effeithlon o gyferbwyntiau allanol gan gynnwys y Seilwaith Academaidd, *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Brifysgol hefyd yn hyrwyddo gweithredu polisiau addysg uwch Cynulliad Cymru.

Y prif adroddiad

Adran 1: Cyflwyniad – Prifysgol Caerdydd

1 Cynhaliwyd adolygiad sefydliadol o Brifysgol Caerdydd (y Brifysgol) rhwng 28 Ebrill a 2 Mai 2008. Amcan yr adolygiad oedd rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am ansawdd rhaglenni astudio'r Brifysgol ac am ansawdd academiaidd ei gwobrau.

2 Cynhaliwyd yr adolygiad trwy ddefnyddio proses a ddatblygwyd gan Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) mewn partneriaeth â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). I sefydliadau yng Nghymru, mae'n cymryd lle'r broses flaenorol o adolygu parhad a wnaed gan QAA ar gais Prifysgolion y DU a Chynhadledd Sefydlog y Penaethiaid. Mae adolygiad sefydliadol hefyd yn disodli asesiadau ac ymrwymadau'n ymwneud ag ansawdd a safonau'r ddarpariaeth ar lefel pwnc. CCAUC oedd yn cynnal yr asesiadau a QAA oedd yn delio â'r ymrwymadau ar ran CCAUC fel rhan o ddyletswydd statudol CCAUC i asesu ansawdd yr addysg y mae'n ei hariannu.

3 Roedd yr adolygiad yn gwirio pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r Brifysgol i sefydlu a chynnal safonau ei gwobrau academiaidd gan Brifysgol Caerdydd; i adolygu a gwella ansawdd y rhaglenni astudio sy'n arwain at y gwobrau hynny; ac i gyhoeddi gwybodaeth ddibynadwy. Roedd yr adolygiad yn cwmpasu holl ddarpariaeth y Brifysgol a'r holl drefniadau cydweithredol sy'n arwain at wobrau Prifysgol Caerdydd.

Y sefydliad a'i genhadaeth

4 Sefydlwyd y Brifysgol yn 2004-05 yn dilyn uno Prifysgol Cymru, Caerdydd â Choleg Meddygol Prifysgol Cymru (UWCM). Mae'r Brifysgol yn olrhain ei gwreiddiau i sefydlu Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy ym 1883, Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifysgol Cymru, a gafodd ei Siartr ym 1967, a sefydlu Ysgol Feddygol Genedlaethol Cymru ym 1931. Y brifysgol yw'r sefydliad addysg uwch mwyaf yng Nghymru ac mae'n darparu ar gyfer tua chwarter poblogaeth myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru. Mae gan y Brifysgol tua 24,000 o fyfyrwyr, tua 17,500 yn fyfyrwyr israddedig, 5,000 wedi'u cofrestru ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig a addysgir a 1,400 wedi cofrestru ar gyfer graddau ymchwil.

5 Mae'r Brifysgol yn gweithredu ar ddau brif safle. Darperir y disgyblaethau clinigol yn bennaf ar safle Ysbyty'r Brifysgol (Campws y Waun) ac mae gweddill darpariaeth y Brifysgol yn digwydd yng nghanol Caerdydd (Campws y Waun Ddyfal). Mae 28 o ysgolion academiaidd, yn cwmpasu ystod eang o ddisgyblaethau, a phum cyfarwyddiaeth weinyddol. Caiff nifer mawr o raglenni'r Brifysgol eu hachredu gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoliadol.

6 Er bod gan Brifysgol Cymru, Caerdydd yr hawl, ers 1996, i ddyfarnu graddau a addysgwyd a graddau ymchwil, ni ddefnyddiwyd yr hawliau hyn. Ar ôl ei dynodi â statws a theitl prifysgol yn 2005, peidiodd y Brifysgol â bod yn rhan o Brifysgol Ffederal Cymru. Mae Prifysgol Caerdydd yn dal i gynnig gwobrau Prifysgol Cymru i bob myfyriwr a ddechreuodd ar raglenni gradd cyn Medi 2005, ac i fyfyrwyr israddedig newydd mewn meddygaeth, deintyddiaeth, nyrsio ac astudiaethau gofal iechyd a ddechreuodd ar eu cyrsiau rhwng Medi 2005 a 2007. Mae myfyrwyr meddygol a deintyddol yn dal wedi'u cofrestru ar gyfer graddau Prifysgol Cymru oherwydd natur Cymru-gyfan y ddarpariaeth hon. Cefnogir y drefn hon gan gytundeb lefel gwasanaeth

rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru. Roedd y ddogfen hunan-werthuso'n pwysleisio bod Prifysgol Caerdydd, cyn ei gwahanu yn 2004 oddi wrth y Brifysgol Ffederal, ac wedi hynny, yn 'ystyried ei hun yn gyfrifol, ei hunan ac yn gyfan gwbl, am ansawdd a safonau ei darpariaeth ac am ddiogelu safonau ei gwobrau'.

Datganiad cenhadaeth

7 Gweledigaeth y Brifysgol yw bod yn brifysgol ar flaen y gad yn fyd-eang a'i chenhadaeth yw 'anelu at ymchwil, dysgu ac addysgu sy'n rhagoriaethu'n rhyngwladol ac yn cael effaith ryngwladol'. Mae'r Cynllun Strategol cyfredol yn datgan bod 'pob gweithgaredd gan y Brifysgol yn anelu at gyrraedd y safon rhyngwladol uchaf o ran ymchwil, dysgu ac addysgu, mewn amgylchedd cyfoethog ac amrywiol wedi'i arwain gan ymchwil, lle gall yr holl staff a myfyrwyr gyflawni eu potensial llawn er budd y gymuned ehangach a'r gymdeithas yn gyffredinol'.

Darpariaeth gydweithredol

8 Dywed y ddogfen hunan-werthuso nad oedd gan y Brifysgol, cyn yr uno, unrhyw ddarpariaeth gydweithredol ar wahân i nifer o drefniadau cyfathrebu. Wedi'r uno, trosglwyddwyd amryw o drefniadau UWCM i'r sefydliad newydd. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni iechyd a meddygaeth chwaraeon a therapi galwedigaethol a gynigir ar y cyd â phartneriaid addysg uwch yng Nghymru a thair rhaglen a gynigir gyda phartneriaid tramor. Hefyd, mae'r ddogfen yn nodi trefniant gyda Phrifysgol Abertawe lle gall myfyrwyr graddedig sy'n dechrau ar gwrs meddygol pedair blynedd dreulio dwy flynedd olaf y rhaglen o fewn Prifysgol Caerdydd.

9 Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn ddiweddarach gan y Brifysgol yn rhoi manylion darpariaeth gydweithredol arall, gan gynnwys trefniant gwobrwyo deul gyda'r Institut d'Etudes Politiques (Bordeaux) a gymeradwy-wyd yn 2002. Fodd bynnag, nid yw darpariaeth gydweithredol y Brifysgol yn helaeth iawn, ac oherwydd hyn, cytunwyd i gynnwys hyn o fewn ystod yr adolygiad presennol.

Gwybodaeth gefndirol

10 Roedd y wybodaeth ar gyfer yr adolygiad hwn yn cynnwys:

- gwybodaeth a gyhoeddwyd ar wefan y Brifysgol yn gyffredinol, ac ar safle neilltuol Quickplace
- adroddiad archwiliad ansawdd blaenorol ar archwiliad Parhad Coleg Meddygol Prifysgol Cymru a gwblhawyd yng Ngorffennaf 1999 ac archwiliad cyffelyb Prifysgol Caerdydd yn Hydref 2000
- Adroddiadau testun QAA ar bensaerniaeth, cyfrifiaduro a therapi galwedigaethol (heb eu cyhoeddi)
- adroddiad adolygiad arbennig QAA ar raddau ymchwil, 2006 (heb ei gyhoeddi)
- dogfen hunan-werthuso'r Brifysgol ar gyfer yr adolygiad sefydliadol
- cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr
- Dogfennau cefnogol yn gysylltiol â'r ddogfen hunan-werthuso.

11 Cafodd y tîm adolygu fynediad hefyd at ystod o ddogfennau mewnol y Brifysgol, gan gynnwys dogfennau'n ymwneud â'r llwybrau thematig a ddewiswyd gan y tîm. Mae'r tîm yn ddiolchgar i'r Brifysgol am y mynediad a gafwyd at y wybodaeth hon.

Y broses adolygu

12 Talodd y QAA ymweliad rhagarweiniol â'r sefydliad ar 22 Awst 2007 i drafod agweddau ymarferol yr adolygiad. Derbyniodd QAA y ddogfen hunan-werthuso ar 31 Ionawr 2008.

13 Ymwelodd y tîm adolygu â'r Brifysgol o 11 i 13 Mawrth 2008 i ymchwilio, ar y cyd gyda'r Is-ganghellor, aelodau uwch y staff a chynrychiolwyr myfyrwyr, i faterion yn ymwneud â rheoli ansawdd a safonau oedd yn codi o'r ddogfen hunan-werthuso neu ddogfennau eraill a ddarparwyd ar gyfer y tîm. Yn ystod yr ymweliad briffio, nododd y tîm nifer o themâu ar gyfer yr ymweliad adolygu a pharatowyd rhaglen o gyfarfodydd wedi'i chytuno gyda'r Brifysgol.

14 Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 28 Ebrill a 2 Mai, pan gafwyd cyfarfodydd pellach gyda staff a myfyrwyr y Brifysgol. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys yr Athro P Hodson, yr Athro P Manning, yr Athro C Raban, Dr C Vielba a Ms H Placito, ysgrifenyddes yr adolygiad. Cydlynwyd yr adolygiad ar ran QAA gan Ms J Holt a'r Athro C Clare, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol y Grŵp Adolygiadau.

Datblygiadau ers yr adolygiad ansawdd academiaidd blaenorol

15 Cwblhawyd yr archwiliad Parhad o Goleg Meddygol Prifysgol Cymru yng Ngorffennaf 1999 a'r archwiliad cyffelyb o Brifysgol Caerdydd yn Hydref 2000. Roedd y dogfennau a ddarparwyd gan y Brifysgol ar gyfer yr adolygiad presennol yn cynnwys dadansoddiadau manwl a chynhwysfawr o'r camau a gymerwyd fel ymateb i'r ddau adroddiad.

16 Mae gweithredu byrddau arholi'n cael ei adolygu'n flynyddol ac mae swyddogion y Gofrestrfa'n cyfrannu'n fwyfwy at eu cyfarfodydd ac yn rhoi cymorth i'r Cadeiryddion. Mae Strategaeth Asesu'r Brifysgol yn nodi amryw o gamau i sicrhau dibynadwyedd a thegwch y trefniadau ar gyfer gwobrau i fyfyrwyr. Y Pwyllgor Gwobrau a Chynnydd sy'n gyfrifol am ddyfarnu graddau a chymwysterau eraill ac am dderbyn adroddiadau cydymffurfiant oddi wrth fyrddau arholi am y modd maen nhw'n cynnal eu busnes. Casgliad y tîm adolygu oedd bod y Brifysgol wedi delio'n effeithlon â'r pynciau a godwyd yn yr archwiliad Parhad 2000 am weithredu'r byrddau arholi ac am gydraddoldeb gwobrau.

17 Bellach mae data perfformiad myfyrwyr yn cael ei werthuso'n rheolaidd fel mater o drefn ar lefel rhaglenni trwy weithdrefn Adolygu Rhaglenni a Gwerthuso Blynyddol y Brifysgol. Ceir trosolwg sefydliadol gan y Pwyllgor Gwobrau a Chynnydd a'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd. Mae prosiectau ar waith hefyd i wella swyddogaeth y system a chynyddu'r defnydd o ddata ystadegol wrth reoli ansawdd a safonau yn ganolog ac yn lleol o fewn y sefydliad.

18 Mae'r weithdrefn ar gyfer Adolygu Blynyddol Raglenni a Gwerthuso Rhaglenni a Addysgir. Yn 2000-01, cyflwynodd y Brifysgol weithdrefn gyffelyb i adolygu gweithgaredd

ôl-raddedigion. Mesurir effeithlonrwydd y gweithdrefnau hyn yn flynyddol gan y pwyllgorau Prifysgol perthnasol a defnyddir amrywiaeth o ddulliau i ddsbarthu eu deilliannau. Barn y tîm adolygu oedd bod y gweithdrefnau a gynlluniwyd ar gyfer monitro blynyddol yn rhai cadarn ac yn debygol o sicrhau safonau.

19 Mae'r trefniadau ar gyfer hyfforddi myfyrwyr ymchwil, cyn eu cynnwys yn y gwaith addysgu, yn atebol i God Ymarfer y Brifysgol a dderbyniwyd ym 1999 ac a ddiwygiwyd yn 2003. Er bod y cyfrifoldeb dros sicrhau bod myfyrwyr ymchwil yn derbyn lleiafswm o hyfforddiant yn gorwedd gyda phenaethiaid ysgolion, darperir y cyrsiau gan yr ysgolion graddedigion fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Sgiliau Myfyrwyr Ymchwil. Trafodir effeithlonrwydd y rhaglen gan y Pwyllgor Datblygu Graddedigion, Grwpiau Rheoli'r Ysgol Graddedigion a Grŵp Llywio Canolfan y Graddedigion. Roedd adroddiad ar Adolygiad QAA o raglenni graddau ymchwil (2006-07) yn nodi agwedd integredig y Brifysgol tuag at hyfforddiant a datblygiad sgiliau fel un nodwedd o arfer da. Casgliad y tîm adolygu oedd bod y drefniadaeth, ar lefel ysgol ac ar lefel sefydliadol, ar gyfer hyfforddi myfyrwyr ymchwil yn y cyd-destun hwn, yn effeithlon ac yn briodol.

20 Roedd y ddogfen hunan-werthuso'n rhoi adroddiad cyflawn am y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r argymhelliad eu bod yn parhau i hybu ymwybyddiaeth o'r polisi sefydliadol ar gyfle cyfartal. Mae Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, gyda chefnogaeth amryw o bolisiau mwy manwl, ac mae'r cyfrifoldeb am eu datblygu a'u gweithredu, yn gorwedd, yn y pendraw ar ysgwyddau Cyngor y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn derbyn cyngor gan y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth trwy'r Pwyllgor Rheolaeth a'r Uned Cydymffurfiant Corfforaethol.

Adran 2: Ymchwiliadau'r adolygiad – prosesau sefydliadol

Effeithlonrwydd fframwaith y sefydliad ar gyfer rheoli ansawdd a safonau gan gynnwys darpariaeth gydweithiol

21 Mae strategaeth ansawdd y Brifysgol yn pwysleisio 'ymagwedd werthusol ac mae'n annog gwelliant'. Mae prif nodweddion ymagwedd y Brifysgol tuag at reoli ansawdd academiaidd yn cynnwys ei 'chysyllteddau gyda chynllunio strategol sefydliadol', 'cysylltedd cynyddol rhwng yr amrywiol weithdrefnau sicrwydd ansawdd', addasiad i 'anghenion penodol y meysydd sy'n cael eu hadolygu', 'natur fewnol cyfranogiad myfyrwyr' a 'symudiad i ganolbwyntio'n gynyddol ar wella ansawdd'. Mae'r ymagwedd wedi'i seilio ar strategaethau academiaidd y Brifysgol ac yn cael ei gefnogi gan bortffolio o ddogfennau sy'n ffurfio 'fframwaith ansawdd cynhwysfawr, cydlynol ac eto'n un addasadwy'.

22 Ymhellach ymlaen yn y ddogfen hunan-werthuso, nodir bod strategaeth ansawdd y Brifysgol yn 'ymgorffori partneriaeth rhwng y Brifysgol, ei hysgolion a'r holl staff, i gefnogi (ei) myfyrwyr'. Mae penaethiaid ysgolion yn chwarae rôl bwysig 'wrth reoli profiad y myfyrwyr ac mae mesur eu lefelau cyrhaeddiad yn alinio o leiaf gyda'r lleiafswm o ofynion a nodir gan y Brifysgol'.

23 Mae gan y Brifysgol strwythur 'fflat' sy'n cynnwys 28 ysgol academiaidd. Mae pob un â hawl sylweddol i ddewis wrth ddelio â'u cyfrifoldebau sylweddol wrth reoli ansawdd a safonau. Mae gan benaethiaid ysgolion bŵer i weithredu o fewn paramedrau wedi'u

diffinio'n eang ac yng nghyd-destun yr hyn a ddisgrifiwyd gan staff fel perthynas 'ymddiriedaeth fawr' rhwng ysgolion a'r Brifysgol. Mae'r cyfrifoldebau a osodir ar ysgolion yn cynnwys ffurf a chyfansoddiad eu pwyllgorau, y modd y maen nhw'n cael adborth myfyrwyr a ffurf, cymeradwyaeth a rheolaeth asesiad myfyrwyr. Disgrifir Bwrdd yr Ysgol fel yr uwch bwyllgor ar lefel ysgol gyda chyfrifoldeb dros ddyrannu adnoddau, argymell penodiadau arholwyr mewnlol ac allanol a chynghori Pennaeth yr Ysgol ar faterion polisi pwysig.

24 Disgwylir i benaethiaid ysgolion sefydlu byrddau astudio 'i sicrhau cydlynu'r holl faterion academaidd a gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynlluniau astudio a addysgwyd'. Mae byrddau astudio'n adrodd yn ôl i Fwrdd yr Ysgol naill ai'n uniongyrchol neu drwy un neu fwy o'i is bwyllgorau. Disgwylir i ysgolion fod â threfniadau i ddelio ag amrediad o gyfrifoldebau gan gynnwys dysgu ac addysgu, sicrwydd ansawdd, safonau academaidd a derbyniadau myfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw strwythur, cylch gorchwyl ac aelodaeth unrhyw bwyllgor a sefydlir i ddelio â materion o'r fath yn cael eu rhagnodi gan y Brifysgol nac yn bwnc i gael ei chymeradwyaeth. Roedd cynnwys cofnodion Bwrdd yr Ysgol oedd ar gael i'r tîm yn adlewyrchu'r amrediad eang o gyfrifoldebau a roddir i'r cyrff hyn. Sylwodd y tîm adolygu mewn rhai achosion fod byrddau ysgolion yn derbyn ac yn nodi camau a gymerwyd gan staff neu bwyllgorau eraill yr ysgol ac nad oedden nhw eu hunain yn cysylltu mewn dull uniongyrchol a rhagweithiol gyda materion perthnasol i ddarpariaeth academaidd y maen nhw'n gyfrifol amdani.

25 Y Senedd yw 'prif bwyllgor academaidd' y Brifysgol ac mae gan Bwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd y Senedd gyfrifoldeb dros 'gynghori'r Brifysgol ar bob mater yn ymwneud â hybu ansawdd a safonau academaidd ar draws amrediad llawn ei darpariaeth i fyfyrwyr'. Mae Pwyllgor Strategaeth Academaidd hefyd yn gwasanaethu'r Senedd sy'n cael ei gefnogi, yn ei dro, gan y pwyllgorau Addysgu a Dysgu, Datblygiad Graddedigion ac Ymchwil. Nododd y tîm adolygu fod atebolrwydd byrddau'r ysgolion i'r Brifysgol yn gyffredinol drwy Bennaeth yr Ysgol a'r strwythur gweithredol yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r Senedd a'i bwyllgorau. Roedd y staff a gyfarfu â'r tîm yn cadarnhau nad oedd cofnodion byrddau'r ysgolion yn cael eu cadw'n ganolog.

26 Sicrheir atebolrwydd ysgolion i'r Senedd a'i bwyllgorau drwy weithdrefnau sicrwydd ansawdd y Brifysgol a thrwy'r ffaith bod penaethiaid ysgolion eu hunain yn aelodau o'r Senedd. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau dros ansawdd a safonau academaidd, mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn ddibynnol ar dystiolaeth anuniongyrchol sy'n cael ei chyflwyno'n flynyddol gan weithdrefnau adolygu a gwerthuso rhaglenni a addysgwyd a graddau ymchwil. Ceir dystiolaeth fwy uniongyrchol oddi wrth adroddiadau arholwyr allanol ac o weithdrefnau Adolygiad ac Ail-ddilysu Cyfnodol a luniwyd i weithredu mewn cylch o bum mlynedd gyda'r Adolygiad Cynnydd Ansawdd yn gweithredu o fewn y cylch hwn. Yn weithredol, mae'r ddogfen hunan-werthuso'n nodi bod hwn yn gylch pump i saith blynedd. Felly, mae'r dystiolaeth uniongyrchol a geir gan yr Adolygiad Cynnydd Ansawdd ar effeithlonrwydd a chydymffurfiant ysgolion wrth weithredu gweithdrefnau'r Brifysgol yn llwyr, yn gweithredu'n nodweddiadol mewn cylch saith blynedd. Mae'r weithdrefn Adolygiad Cynnydd Ansawdd yn cyflawni'r swyddogaeth hynod bwysig o sicrhau bod ysgolion yn effeithlon wrth iddyn nhw gyflawni eu cyfrifoldebau'n barhaus (gweler hefyd baragraffau 39, 44).

Ystyriaeth y sefydliad o effeithlonrwydd y fframwaith

27 Cred y Brifysgol bod effeithlonrwydd ei fframwaith yn gorffwys ar ddau egwyddor. Y cyntaf yw bod 'disgwyl i holl aelodau'r staff gymryd cyfrifoldeb personol am ansawdd eu cyfraniadau i ddarparu profiad addysgol myfyrwr'. Roedd y ddogfen hunan-asesu'n cyfeirio'n aml at 'safon uchel' nid yn unig staff y Brifysgol ond hefyd ei myfyrwr ac roedd yn cydnabod bod 'staff angen cymorth y sefydliad i weithredu eu cyfrifoldeb personol yn effeithlon'. Felly, yr ail egwyddor yw y dylai cyfrifoldeb personol gael ei weithredu 'o fewn amgylchedd cefnogol'. Yn y cyd-destun hwn, mae trefniadau amrywiol y Brifysgol ar gyfer cymorth i staff a'u datblygiad a'r gwerth y mae'n ei roi ar ymchwil a gweithgaredd ysgolheigaidd staff, yn gwneud cyfraniad hanfodol i effeithlonrwydd ei threfniadau. Cyfraniad yr un mor bwysig yw'r dogfennau a geir gan Adran Polisi Academaidd y Gofrestrfa a'r cymorth, arweiniad a'r ymyrraeth achlysurol a geir gan staff y Gofrestrfa. Daeth y tîm i'r casgliad fod y Gofrestrfa'n gweithredu fel y brif asiantaeth wrth hyrwyddo llif gwybodaeth rhwng ysgolion a phwyllgorau'r Senedd. Hyrwyddir y cyfnewid gwybodaeth hwn a chydlyniad strwythurau academaidd y Brifysgol hefyd gan gysylltiad anffurfiol ysgolion cytras ar gyfer rheoli rhaglenni cyd anrhydedd, trosolwg o grwpiau o ysgolion gan bob un o'r pump dirprwy is-ganghellor, ysgolion y graddedigion a'r Grŵp Penaethiaid Ysgolion.

28 Roedd y tîm adolygu'n trafod gyda staff yr amrywiol risgiau a allai ddigwydd oherwydd elfennau unigol fframwaith y Brifysgol ar gyfer rheoli ansawdd a safonau ei darpariaeth academaidd. Mae'r rhain yn cynnwys: dirprwyaeth sylweddol o gyfrifoldeb i, ac o fewn, ysgolion beth bynnag eu maint; diffyg unrhyw atebolrwydd ffurfiol byrddau ysgolion i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd ac felly i'r Senedd; a'r ddibyniaeth a roir ar yr adolygiad blynyddol a'r prosesau gwerthuso ac ar adroddiadau arholwyr allanol, i ddarparu sicrwydd amserol bod ysgolion yn cyflawni eu dyletswyddau mewn dull priodol ac effeithlon. Er gwaethaf y risgiau posibl hyn, daeth y tîm i'r casgliad fod y fframwaith yn gyson gyda'r bwriad a nodwyd gan y Brifysgol 'i gefnogi proffesiynoldeb staff o fewn amgylchedd cefnogol'. Mae cyfraniadau cyfunol trefniadau'r Brifysgol ar gyfer rheolaeth academaidd, y gweithdrefnau sicrwydd ansawdd, cymorth ac arweiniad i staff a'r rôl arbennig a gyflawnir gan y Gofrestrfa, yn sicrhau bod fframwaith y Brifysgol yn briodol ac yn effeithlon. Fodd bynnag, mae'r tîm yn ystyried ei fod yn ddymunol i'r Brifysgol ystyried yr angen am atebolrwydd y pwyllgorau lefel ysgol i'r Senedd yng nghyd-destun fframwaith y Brifysgol ar gyfer rheoli ansawdd a safonau academaidd.

Bwriadau'r sefydliad ar gyfer gwella ansawdd a safonau

29 Yn ôl y ddogfen hunan-werthuso, roedd 'prif flaenoriaethau sefydliadol' y Brifysgol wedi bod, adeg yr archwiliad blaenorol, 'yn hynod berthnasol i gyfleoedd datblygiadol a roddwyd drwy fynegiant cynyddol y Seilwaith Academaidd'. Mae'r ymagwedd hwnnw erbyn hyn 'wedi'i droslunio' gan 'ymrwymiad rhanedig i welliant parhaus a chynyddol'. Mae'r Brifysgol yn diffinio gwelliant fel 'cymryd camau bwriadol a systematig ar bob lefel yn y sefydliad er mwyn gwella ansawdd cyfleoedd dysgu'. Mae mabwysiadu 'ymagwedd gwelliant-ganolog' yn tanategu datblygiad cefnogaeth y Brifysgol i weithdrefnau sicrwydd ansawdd ac i ddysgu ac addysgu ac mae'n ei chynorthwyo drwy ddiffinio'r 'gwerthoedd proffesiynol' sy'n hysbysu hyfforddiant, datblygiad ac arfer staff. Dywedwyd bod adborth gwerthusol gan fyfyrwyr a'r prosesau Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddola'r Adolygiad Cynydd Ansawdd yn creu tystiolaeth i

hysbysu blaenoriaethau gwella'r Brifysgol, yn monitro cynnydd ar lefel ysgol ac yn canfod 'materion o bryder' ac 'arfer sy'n haeddu ei ledaenu ymhellach'.

30 Mae blaenoriaethau gwella'r Brifysgol yn ymestyn y tu hwnt i ddysgu, addysgu ac asesu i gynnwys agweddau rhithwir a ffisegol yr amgylchedd dysgu. Canfuwyd y blaenoriaethau hyn a'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu sy'n eu tanegu, yn y broses uno. Roedd diwygio Cynllun Strategol y Brifysgol wedyn (yn 2005-06) yn rhoi cyfle i ail weithio'r fframwaith strategol ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu. Mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod holl ddogfennau strategol lefel uchaf y Brifysgol yn parhau'n gysylltiol ac yn gefnogol un i'r llall, yn gorffwys gyda'r Pwyllgor Strategaeth Academaidd sy'n goruchwyllo gwaith ei is bwyllgorau Dysgu ac Addysgu, Ymchwil ac Astudiaeth Graddedigion.

31 Mae strategaeth ansawdd y Brifysgol wedi'i seilio ar yr egwyddor y dylai staff gymryd cyfrifoldeb personol o fewn amgylchedd cefnogol (gweler paragraff 27). Yn ôl y ddogfen hunanwerthuso, diffinnir yr 'amgylchedd cefnogol' hwn gan y Strategaethau Amgylchedd Dysgu ac Addysgu, Asesu a Dysgu ac mae'r rhain a strategaeth ansawdd y Brifysgol am y rheswm hwn yn 'annatod ac yn integredig'. Y bwriad yw y dylai pawb sy'n ymwneud â hyn fod wedi ymrwymo i 'ddiwylliant sefydliadol sy'n ystyried yr addysgu sy'n cefnogi dysgu fel gweithgaredd sy'n hynod werthfawr'. Eglurodd aelodau'r staff i'r tîm adolygu fod ymagwedd gwelliant-ganolog y Brifysgol yn golygu nid yn unig symud pwyslais o sicrwydd i wella ond hefyd aliniad agosach gweithdrefnau sicrwydd ansawdd gyda blaenoriaethau gwella. Gwelodd y tîm dystiolaeth o'r 'aliniad agosach' hwn yn y modd yr oedd y prosesau sicrwydd ansawdd yn galluogi'r Brifysgol i fonitro cynnydd yn erbyn ei blaenoriaethau gwella a chreu gwybodaeth a syniadau ar gyfer datblygu ei strategaethau ymhellach. Roedd hyn yn arbennig o amlwg wrth ledaenu deilliannau'r broses Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol a Gwerthusiad i ysgolion gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (gan gynnwys 'eitema'u o arfer nodedig'), ymrwymiad y Brifysgol i gael adborth a sicrhau cynrychiolaeth myfyrwyr (gweler paragraffau 101, 102) a'r pwyslais cynyddol a roir ar welliant yn y cylch o Adolygiadau Cynnydd Ansawdd presennol.

32 Teimlai'r tîm adolygu fod gan yr Adolygiad Cynnydd Ansawdd, ar ei ffurf presennol, y potensial i weithredu fel offeryn pwerus i sicrhau bod ysgolion yn cysylltu â blaenoriaethau gwella'r Brifysgol a'u strategaethau perthynol. Mae Adran Polisi Academaidd y Gofrestrfa'n chwarae rôl hanfodol wrth atgyfnerthu'r cysyllteddau rhwng sicrwydd ansawdd a gwelliant, cydlynu gwaith yr ysgolion a chyfarwyddiaethau canolog ac wrth gefnogi staff. Asiantaethau pwysig eraill yw'r Ganolfan i Raddedigion, y Grŵp Amgylchedd Dysgu a'r Tîm Cymorth Dysgu ac mae gan y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu arian i dargedu buddsoddiad i gefnogi prosiectau sefydliadol a mentrau unigol. Dywedodd aelodau o'r staff wrth y tîm eu bod yn gwerthfawrogi'n fawr y cymorth roedd 'Hyrwyddwyr Newid' y Brifysgol yn ei roi a thrwy seminarau Ansawdd ac Arloesi mewn Dysgu ac Addysgu a'r rhwydweithiau a sefydlwyd ganddynt fel cyfranogwyr yn y rhaglen Dysgu ac Addysgu Tystysgrif ôl-radd mewn Prifysgol.

33 Mae ymagwedd y Brifysgol tuag at wella yn gyson â'i strategaeth ansawdd ac â'i fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli ansawdd a safonau. Roedd y tîm adolygu'n ystyried y dull systematig y mae'r Brifysgol wedi ffurfio a gweithredu ei strategaethau gwella yn nodwedd o arfer da. Mae ymagwedd y Brifysgol tuag at wella ansawdd

cyfleoedd dysgu myfyrwyr yn cael ei atgyfnerthu hefyd gan ei hymrwymiad cryf i ragoriaeth ymchwil. Mae'r Cynllun Strategol yn pwysleisio bod 'perthynas hanfodol a chyd-ddibynnol' rhwng ymchwil, addysgu a dysgu ac arloesi a chynnwys. Roedd trafodaethau'r tîm gyda staff a myfyrwyr fel ei gilydd yn cadarnhau'r gwirionedd bod gweithgaredd ymchwil staff yn cyfoethogi eu haddysgu a datblygiad cwricwla, a bod hyn yn cael ei werthfawrogi gan fyfyrwyr. Ystyriodd y tîm fod cyfraniad gweithgaredd ymchwil staff tuag at ansawdd yr addysgu, ac, yn fwy cyffredinol, at ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr, yn nodwedd o arfer da.

Prosesau cymeradwyo, monitro ac adolygu mewnol

34 Mae'r Brifysgol, yn ei Llawlyfr Rheoliadau Academaidd, yn diffinio'r cyrff sydd â chyfrifoldeb dros gymeradwyo rhaglenni newydd, dros wneud newidiadau i raglenni a modiwlau cyfredol a thros gynnal adolygiadau blynyddol a chyfnodol o raglenni. Mae'r cyrff hyn yn ymestyn o Fwrdd Astudiaethau'r Ysgol i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd ac i'r Pwyllgor Polisi Academaidd sy'n gweithredu ar ran y Senedd. Mae'r ddogfen hunan-werthuso yn nodi bod y gweithdrefnau allweddol hyn yn rhan o'r Systemau Ansawdd.

- Gweithdrefn Cymeradwyo Rhaglenni Newydd
- Gweithdrefn Cymeradwyo Newidiadau i Raglenni
- Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol (Raglenni a Addysgir)
- Adroddiad a Gwerthusiad Blynyddol (Gweithgaredd Ymchwil Ôl-raddedigion)
- Adolygiad Cynnydd Ansawdd
- Adolygiad Rhaglenni Cyfnodol.

35 Mae pob un o'r gweithdrefnau hyn wedi'u cofnodi'n fanwl ar wefan y Brifysgol gydag ystod eang o ffurflenni, templedi a chanllawiau sy'n rhoi cymorth sylweddol i staff ar bob lefel. Mae'r canllawiau'n cynnwys: cyfeiriad at yr angen am ymgynghori mewnol ac allanol, fel ei gilydd, (gan gynnwys ymgynghori â myfyrwyr), y defnydd o ystod eang o gyferbwyntiau allanol gan gynnwys *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* a'r gofynion penodol sy'n berthnasol i ddatblygiad rhaglenni dysgu o bell.

Cymeradwyo rhaglenni

36 Y disgwyliad arferol yw bod argymhellion i gyflwyno rhaglenni newydd neu i wneud newidiadau sylweddol yn strwythur, cynnwys neu'r dull o gyflwyno rhaglen sy'n bodoli eisoes, yn deillio o, ac yn cael eu canfod gan, amrediad o weithgareddau a ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys Adolygiad ac Ail-ddilysu Cyfnodol ac Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol. Fel arfer, bydd argymhellion am raglenni newydd yn ymddangos ym Mhroses Cynllunio Strategol yr Ysgol. O fewn y broses cynllunio strategol hon a chyn ffurfio cynigion manwl ar gyfer cyflwyno rhaglen newydd, mae'n ofynnol i'r ysgol sy'n gwneud argymhelliad hysbysu ac ymgynghori gyda'r:

- Gofrestrfa a'r Gyfarwyddiaeth Cymorth i Fyfyrwyr, a fydd yn rhoi cyngor manwl ar yr amseriad, y broses gymeradwyo, y polisiâu a'r dogfennau sy'n angenrheidiol ar gyfer y broses gymeradwyo

- y Cyfarwyddwr Cynllunio a fydd yn darparu cyngor ysgrifenedig am oblygiadau adnoddau, ariannol ac ystâd yr argymhellion, mewn ymgynghoriad, pan fydd hynny'n briodol
- y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth i ystyried yn gynnar materion llyfrgell a chyfrifiaduro
- pennaeth (penaethiaid) unrhyw ysgol arall lle bydd staff eraill efallai'n ymwneud â darparu'r rhaglen neu ag addysgu a/neu ag unrhyw ddiddordeb ymchwil ym mhwno y rhaglen neu'n cynnig rhaglenni cyfredol cyffelyb
- yr Adran Cysylltiadau a Chyfathrebu Cyhoeddus a Rhyngwladol a fydd yn cynghori ar gyhoeddusrwydd.

Roedd y tîm adolygu'n credu bod integreiddio datblygiad rhaglenni gyda chynllunio strategol ac adnoddau'n nodweddiadol o arfer da.

37 Datblygir argymhellion manwl gan fwrdd astudiaethau ysgol, gyda sefydlu panel cynghori'r ysgol yn cynnwys 'cyfaill beirniadol' i ddatblygu'r cyflwyniad. Penodir y 'cyfaill beirniadol' gan yr ysgol. Yn dilyn ymateb boddhaol gan yr ysgol i unrhyw argymhellion gan y Panel Cynghori, caiff y rhaglen ei hystyried gan banel cymeradwyo rhaglenni'r Brifysgol. Aelodau hwn yw myfyriwr, dau aelod staff o'r tu allan i'r ysgol a dau aelod o'r tu allan i'r Brifysgol. Trefnir digwyddiad i gymeradwyo'r rhaglen gan y panel pan fyddai unrhyw newid sylweddol i raglen gyfredol dan sylw. Mae Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyriwr yn goruchwyllo gwaith y Panel Cymeradwyo Rhaglenni, gan benodi'n ffurfiol holl aelodau'r panel a chyflawni llawer iawn o'r gwaith trefnu. Rhoddir y gymeradwyaeth derfynol i unrhyw raglen newydd gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Senedd.

38 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod y gweithdrefnau sefydliadol yn dal i esblygu mewn ymateb i ddatblygiadau strategol mewnol a blaenoriaethau allanol. Mae'n eu hadolygu'n gyson i gynnal eu perthnasedd ac i ddarparu gwelliant parhaus. Atgyfnerthwyd y cyswllt rhwng cynllunio strategol a datblygu rhaglenni'n ddiweddar ac mae'r Brifysgol yn ystyried yr ymagwedd integredig hwn yn ddull effeithiol o ddatblygu rhaglenni. Roedd tystiolaeth yr archwiliad thematig i hyn yn cadarnhau'r gred fod y gweithdrefnau hyn yn drylwyr ac yn gadarn. Casgliad y tîm adolygu oedd bod y gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni newydd a newidiadau mawr mewn rhaglenni yn wirioneddol effeithlon; roedden nhw'n rhannu'r farn bod y dull integredig hwn o weithio'n ddealladwy iawn ac yn llwyddo.

Adolygu a gwerthuso rhaglenni blynyddol

39 Ar ôl eu derbyn, mae pob rhaglen a addysgir yn atebol i'r broses Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol y Brifysgol (Rhaglenni a Addysgir). Amcan y Gwerthusiad hwn yw:

- galluogi ysgolion i adlewyrchu ar, ac i werthuso, rhaglenni cyfredol
- nodi arferion neu waith arloesol sy'n werth eu dosbarthu a thynnu sylw'r sefydliad at faterion o ddiddordeb a phryder cyffredinol
- sicrhau gweithredu priodol i drin diffygion a nodwyd gan yr ysgol, y sefydliad, cyrff allanol ac arholwyr allanol

- rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i alluogi'r sefydliad i fod yn hyderus bod rhaglenni'r ysgol yn dal i fod yn ddilys a galluogi myfyrwyr i gyflawni'r deilliannau dysgu a fwriadwyd ganddynt
- canfod i ba raddau mae ysgolion yn dal i gydymffurfio â blaenoriaethau corfforaethol, er enghraifft, adolygu'r dysgu ac addysgu gan gymheiriaid a chynllunio datblygiad personol
- ystyried yr ymateb a fu i adroddiadau arholwyr allanol.

40 Trwy gydol yr adolygiad, pwysleisiodd y Brifysgol bwysigrwydd yr agwedd hon o'r gweithdrefnau sicrwydd ansawdd. Roedd pawb o'r staff a gyfarfu'r tîm adolygu'n pwysleisio'r pwysigrwydd a osodir ar Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol. Mae pob bwrdd astudiaeth o fewn ysgol yn paratoi adroddiad gwerthusol o'r rhaglenni y maen nhw'n eu cynnig ac yn ei anfon at Fwrdd yr Ysgol. Yna mae pob Bwrdd Ysgol yn dadansoddi'r adroddiadau hyn, yn paratoi cynllun gweithredu ac yn cwblhau crynodeb strwythuredig. Pan fydd hwn wedi'i gymeradwyo gan y Pennaeth Ysgol, dylid ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol cyn dyddiad penodedig, fel arfer ar ddechrau Ionawr. Gan amlaf, mae 25% i 30% o Ysgolion yn methu â chyrraedd yr amserlen ond mae'r Is-bwyllgor Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol yn trafod adroddiadau Gwerthuso'r Ysgolion mewn dau gyfarfod gwahanol. Felly mae'r Brifysgol yn hyderus y bydd yn derbyn pob adroddiad cyn ail gyfarfod yr is-bwyllgor sydd fel arfer yn digwydd ym mis Mawrth bob blwyddyn.

41 Dull o weithredu'r Is-Bwyllgor Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol yw penodi dau ddarllenwydd, un ohonynt weithiau'n fyfyrwr, i adolygu bob un o adroddiadau'r Ysgol. Bydd y darllenwyr yn ystyried yr adroddiad synoptig sy'n cael ei baratoi ar dempled strwythuredig yn unig heb weld y dogfennau a gyfrannodd at yr adroddiad hwnnw. Ar ddiwedd y cylch, mae'r Is-Bwyllgor Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol yn paratoi adroddiad adborth i bob ysgol, gan gynnwys adroddiad generig am arfer da. Mae'r adroddiad hwn ar arfer da'n un manwl a gaiff ei adolygu'n fanwl gan bob ysgol drwy ei strwythur pwyllgorau. Mae'r pwyllgor penodol sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn yn dibynnu ar y strwythur arbennig a fabwysiadwyd, sydd yn ei dro'n ddibynnol ar amrywiaeth maint a chymhlethdod ysgolion. Nododd y tîm adolygu y dyddiadau a osodwyd yn y cylch hwn a gofynnwyd y cwestiwn – a allai amseriad ystyried y problemau a godwyd arwain at ohirio gorffen gweithredu am flwyddyn academiaidd arall.

42 Gwelodd y tîm adolygu amrediad llawn o adroddiadau'r Is-Bwyllgor am y flwyddyn academiaidd gyfredol – pob un ohonynt ar ffurf y templedi strwythuredig. Ym mwyafrif mawr yr adroddiadau, gwelwyd ymagwedd cadarn a meddylgar, ac roedd ynddynt gynlluniau gweithredu manwl. Cafwyd dau achos o ysgolion yn dangos diffyg brwdfrydedd am y broses. Yn un o'r achosion hyn, roedd safon yr adroddiadau islaw'r trothwy lle gallai'r Brifysgol fod ag ymddiriedaeth lawn yn y system. Mynnwyd bod yr ysgol yn ailgyflwyno'r adroddiad synoptig o'r Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol. Roedd yn arddangos cdernid ymagwedd y Brifysgol gan iddi gymryd y camau priodol i unioni'r diffyg.

43 Mae'r cylch adolygu a gwerthuso gweithgaredd ymchwil ôl-raddedigion yn un cyffelyb. Caiff yr Adroddiad Adolygu a Gwerthuso Blynyddol ei ystyried gan is-bwyllgor o'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd. Fel yn achos yr Adolygu a Gwerthuso

Rhaglenni Blynyddol, mae is-bwyllgor Adolygu a Gwerthuso Blynyddol y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn penodi darllenwyr ac yn penderfynu ar yr adborth i'r holl ysgolion – materion penodol i ysgolion unigol a materion generig i'r holl ysgolion. Casgliad y tîm adolygu oedd bod y broses fonitro flynyddol at ei gilydd yn gweithredu'n effeithlon, gydag enghreifftiau yn y mwyafrif o ysgolion o roi ystyriaeth amserol a manwl i broblemau a godwyd.

Adolygiad cynnydd ansawdd ac adolygiad cyfnodol

44 Cynlluniwyd yr Adolygiad ac Ail-ddilysiad Rhaglenni gan y Brifysgol fel proses adolygu pum mlynedd. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnal Adolygiadau Cynnydd Ansawdd a luniwyd er mwyn sefydlu graddau llwyddiant ysgolion i gyflawni eu dyletswydd o ran ansawdd yr addysg a roddir i fyfyrwyr, eu dyletswydd o ran eu prosesau sicrwydd ansawdd a'u dyletswydd o ran cynnal safonau academaidd. Mae'r Brifysgol yn cwblhau pob cylch o adolygiadau cyfnodol o bob ysgol dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd, gydag Adolygiadau Cynnydd Ansawdd wedi'u trefnu yn y canol rhwng adolygiadau cyfnodol olynol. Yn Nhachwedd 2007, estynnodd y Brifysgol y cylch cyfredol a datgan bod y penderfyniad i wneud hynny'n deillio o'r uno yn 2004-2005. Ar yr adeg honno, roedd 17 ysgol yn disgwyl cwblhau eu Hadolygiadau Cynnydd Ansawdd. Roedd y cylch cyfredol o Adolygiadau Cynnydd Ansawdd wedi'i drefnu ar gyfer 2006 i 2008; bellach, estynnwyd erbyn hyn i 2009. Cofnodwyd bod chwe ysgol heb gwblhau eu hadolygiadau erbyn Gorffennaf 2008. Roedd y ddogfen hunan-werthuso'n disgrifio'r cylch digwyddiadau fel cylch pum i saith blynedd. Cadarnhaodd y llwybr archwilio thematig fod yr adolygiad cyfnodol diweddaraf i beirianeg wedi'i gynnal ym mis Chwefror 2003 a bod yr Adolygiad Cynnydd Ansawdd mewn Peirianeg wedi'i gynnal yn 2006-07. Ar sail y cylch adolygu estynedig presennol, mae'r adolygiad nesaf yn debyg o ddechrau yn 2009-10. Mae hyn yn cadarnhau teimlad y tîm adolygu bod y cylch yn gweithredu ar ddiwedd saith blynedd y cylch ac weithiau y tu hwnt i hynny. Felly, mae'r tîm yn argymhell y dylai'r sefydliad sicrhau bod cylchoedd gweithgaredd adolygu, o ran Adolygiad ac Ail-ddilysiad Cyfnodol ac Adolygiad Cynnydd Ansawdd yn digwydd o fewn yr amserlenni a nodwyd yng ngweithdrefnau'r Brifysgol.

45 Mae'r Adolygiad Cynnydd Ansawdd a'r Adolygiad ac Ail-ddilysiad Cyfnodol wedi'u seilio ar brosesau wedi'u diffinio'n fanwl gyda thempledi strwythuredig yn eu lle i gynorthwyo ac i gynghori ysgolion. Mae Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrwyr yn cynghori ac yn cynorthwyo ysgolion trwy gydol y cylch, yn penodi aelodau allanol y panel ac yn rhoi cymorth i drefnu digwyddiadau'r Adolygiad Cynnydd Ansawdd a'r Adolygiad ac Ail-ddilysiad Cyfnodol.

46 Mae digwyddiadau Adolygiad ac Ail-ddilysiad Cyfnodol yn dilyn patrwm cymeradwyo rhaglenni, gyda mewnbwn allanol trwy 'gyfeillion beirniadol' a safonwyr allanol. Mae Adolygiadau Cynnydd Ansawdd yn cynnwys aelodau o'r panel sy'n allanol o ran yr ysgol ond yn fewnol o ran y Brifysgol; mae hyn yn arwydd o natur ac amcan gwahanol y broses hon. Mae Adolygiadau Cynnydd Ansawdd a'r prosesau Adolygiad ac Ail-ddilysiad yn cyflwyno adroddiadau ffurfiol ar ddeilliannau i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd. Maen nhw hefyd yn derbyn ymatebion ysgolion pan fydd argymhellion wedi'u cofnodi. Trwy gylch yr Adolygiad Cynnydd Ansawdd a'r Adolygiadau Cyfnodol, mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd yn llwyddo i ganfod ac i ddsbarthu arfer da.

47 Mae'r ysgolion yn cynnal cyfoesoldeb rhaglenni trwy ddiwygio llwybrau rhaglenni. Nodir anghenion mân ddiwygio trwy Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blyneddol a chyflawnir y rhain gan y Bwrdd Astudiaethau a'u cofnodi gan Gyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr. Trefnir diwygiadau sylweddol, fel y dangoswyd ynghynt yn yr adran Gymeradwyo Rhaglenni, drwy ddefnyddio'r paneli cymeradwyo rhaglenni. Roedd staff yn y ddau lwybr archwilio thematig yn cadarnhau'r defnydd cyson o'r gweithdrefnau hyn ac yn ategu eu hyder bod y prosesau hyn yn cynnal statws eu rhaglenni'n effeithlon.

48 Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, casgliad y tîm adolygu oedd bod yr adolygiadau a'r ail-ddilysiadau cyfnodol yn seiliedig ar weithdrefnau cadarn ac yn rhoi'r cadernid a fwriadwyd. Nododd y tîm fod y cyfnodau adolygu ar gyfer Adolygu ac Ail-ddilysu'n gweithredu yn seithfed blwyddyn y cylch pum i saith blynedd a ddynodwyd, yn hytrach nag o fewn dull pum mlynedd y cynllun Adolygu ac Ail-ddilysu (gweler paragraff 44). Fodd bynnag, o ystyried y mân ddiwygiadau cysylltiol, bach a mawr, roedd y tîm yn rhannu'r hyder a fynegwyd gan y Brifysgol bod y rhaglenni'n dal yn gyfoes, er bod graddfa neu fynychder mewnbwn allanol wedi'i leihau. Roedd y tîm yn pryderu bod cylch Adolygu Cynnydd Ansawdd yn seiliedig ar gyfnod o saith blynedd yn rhoi llai o sicrwydd i'r Brifysgol na fyddai'n ddymunol i ddangos bod eu gweithdrefnau i gyd yn weithredol a bod hyn yn ei wneud yn bosibl nad oedd problemau'n cael eu canfod am gyfnodau hir. Fel y nodwyd ym mharagraff 44, dylid gofalu nad oes unrhyw lithiant yn y cylch hwn, a hoffai'r tîm awgrymu wrth y sefydliad bod angen sicrhau bod cylchred gweithgaredd adolygu, o ran Adolygu Cyfnodol ac Adolygu ar gyfer Ail-ddilysu a Chynnydd Ansawdd, yn digwydd o fewn yr amserlenni a nodwyd yng ngweithdrefnau'r Brifysgol.

Cyfranogaeth allanol mewn prosesau adolygu mewnol

49 Yn ei dogfen hunanwerthuso, dywed y Brifysgol mai un o brif nodweddion ei strategaeth ansawdd yw'r 'defnydd o gyfraniadau allanol ar draws y prosesau, o ran mewnbwn academiaidd a sicrwydd annibynnol'. Defnyddir cyfranogaeth allanol wrth gymeradwyo rhaglenni newydd, wrth gymeradwyo newidiadau sylweddol i raglenni cyfredol ac mewn digwyddiadau adolygu a dilysu cyfnodol. Mae'r ddogfen hunanwerthuso'n nodi dwy o brif elfennau'r broses Adolygu Cyfnodol – 'mewnbwn allanol gan "gyfeillion beirniadol" a enwebir gan Ysgolion i gyfrannu at gyfnod ystyriol/gwerthusol yr Adolygu Cyfnodol' a 'phroses sefydliadol o ail-ddilysu rhaglenni sy'n cynnwys Safonwyr Allanol (academyddion o'r tu allan i'r Brifysgol) sy'n tystio i'r lefel o hyder sy'n deillio o gasgliadau'r Adolygiadau Cyfnodol...'.

50 Mae gweithdrefnau'r Brifysgol yn sicrhau cyfuniad o arbenigedd a safle proffesiynol wrth ddewis aelodau panel allanol. Mae'n mynnu cais am ffurflen gais i gymeradwyo rhaglen. Mae'r ffurflen yn rhyddhau o leiaf un o'r panel i fod yn aelod o'r corff proffesiynol neu statudol perthnasol ar gyfer cynigion sy'n arwain at achredu ar gyfer cofrestrriad statudol neu drwydded i weithredu. Mae'r Brifysgol yn ceisio dewis cyfraniadau allanol o ystod eang o sefydliadau er mwyn sicrhau arbenigedd ym maes yr astudiaeth ac yn y broses addysg uwch yn gyffredinol.

51 Mae Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blyneddol hefyd yn derbyn mewnbwn gan arholwyr allanol. I sicrhau bod y rhain yn cynnig sylwadau ar ystod eang o bynciau,

mae'r Brifysgol yn defnyddio templed sylwadau ar gyfer allanolwyr. Mae canllawiau am eu swyddogaeth yn y broses fonitro flynyddol hon i'w gweld mewn llawlyfr i arholwyr allanol, sy'n tynnu'u sylw at *Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) ac yn y datganiadau meincnodi testun a gyhoeddir gan QAA.

52 Mae pob ysgol yn rhan o gylch o Adolygiadau Cynnydd Ansawdd lle mae aelodau'r panel adolygu'n dod o'r tu allan i'r ysgol ond o du mewn i'r Brifysgol. Mae'r Adolygiad Cynnydd Ansawdd hefyd yn ystyried dylanwadau ac adroddiadau allanol, ac roedd hyn yn amlwg trwy'r defnydd o fewnbwn gan fwrdd cyngori diwydiannol yn achos peirianeg, a dewisiadau priodol eraill fel darlithwyr gwadd yn achos newyddiaduraeth.

53 Roedd staff yn cadarnhau'r farn bod allanolrwydd yn bwysig ac yn ddefnyddiol a'u bod yn gwerthfawrogi cyfraniadau allanol tuag at sicrhau a gwella'u darpariaeth. Gwelodd y tîm adolygu fod hwn yn safbwynt cyffredin ymhlith y staff a'u cyfarfu a chafwyd tystiolaeth o'r ystyriaeth a roddir i gyfraniadau allanol yn y llwybrau thematig a olrhiniwyd gan y tîm. Casgliad y tîm oedd bod trefniadau'r Brifysgol ar gyfer cyfranogaeth allanol yn cyfrannu'n effeithlon tuag at gynnal safonau a rheoli ansawdd ac yn cwrdd â'r disgwyliadau a amlinellwyd gan y Brifysgol.

Asiantaethau allanol yn adolygu ac yn achredu lefel rhaglen

54 Mae'r Brifysgol yn ystyried adolygiad allanol a gweithgaredd achredu fel modd o ddarparu ffynhonnell ddefnyddiol o dystiolaeth i ategu, ond nid i amnewid na disodli, ei gweithdrefnau ansawdd ei hun. Cafwyd tri digwyddiad i ddatblygu pynciau yn 2002 – pob un ohonynt wedi'u trin fel adroddiadau cyfrinachol i'r CCAUC a'u trin fel busnes cyfrinachol gan y pwyllgorau Prifysgol perthnasol. Yn 2006, bu'r Brifysgol yn rhan o adolygiad o raglenni gradd ymchwil gan CAA ar ran CCAUC. Dywedodd hwn fod 'gallu'r sefydliad i ddiogelu ac i wella ansawdd a safonau ei darpariaeth rhaglenni graddau ymchwil yn briodol ac yn foddhaol'. Trafodwyd y nodweddion o arfer da a'r ddau argymhelliad penodol yn yr adolygiad hwn gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a mynnwyd bod ysgolion yn adrodd yn ôl yn benodol ar y pynciau hyn trwy Adolygiad a Gwerthusiad Gweithgaredd ôl-raddedigion 2006-07. Cafodd y tîm dystiolaeth fod ysgolion yn delio â'r materion penodol hyn.

55 Mae 76 o gyrff cyhoeddus neu statudol sy'n gysylltiedig â 23 ysgol yn y Brifysgol. Ers 2000, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno 91 cais llwyddiannus am achrediad. Caiff pob cais ei gymeradwyo gan Is-Bwyllgor Ceisiadau Achredu'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd cyn ei gyflwyno. Yr Ysgol berthnasol sy'n ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb, gyda chymorth Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrrwyr pan fydd angen hynny, i ymgynghori gyda'r cyrff cyhoeddus neu statudol ac i baratoi'r cais. Cynhelir adolygiad o weithgaredd cyrff cyhoeddus neu statudol yn flynyddol gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a chaiff adroddiad cryno ei drafod a'i fonitro gan y Pwyllgor. Nododd y ddogfen hunan-werthuso fod cynnwys yr adroddiadau am gyrff cyhoeddus neu statudol fel arfer yn canolbwyntio ar themâu sy'n berthnasol i'r ysgol. Hefyd, cyflwynir ymatebion ysgolion i gyrff cyhoeddus neu statudol i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd. Mae'r rhaglenni hyn, ynghyd ag unrhyw gynlluniau gweithredu olynol, yn rhan o'r mewnbwn i brosesau sicrwydd ansawdd mewnol fel Adolygu a Gwerthuso

Rhaglenni Blynyddol, yr Adolygiad Cynnydd Ansawdd a'r Adolygiad ac Ail-ddilysiad Cyfnodol. Fodd bynnag, nid oedd y llwybrau thematig yn arddangos unrhyw ystyriaeth sylweddol o adroddiadau am gyrff cyhoeddus neu statudol yn adroddiadau'r Adolygiad Cynnydd Ansawdd na'r Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol.

56 Dywed y ddogfen hunan-werthuso bod argymhellion gan ddigwyddiadau achredu cyrff cyhoeddus neu statudol wedi cyfrannu tuag at gynllunio sefydliadol yn y Brifysgol, er enghraifft, newid y rhaglen a gynigir neu gyfrannu tuag at gynllunio strategol mewn meysydd fel ystadau a lefelau staffio. Mae'r ddogfen hefyd yn ystyried bod cyfranogi mewn prosesau adolygu allanol ac achredu yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r Brifysgol adolygu a meincnodi'i hun yn erbyn meincnodau a safonau cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol eraill.

57 Ar sail y wybodaeth oedd ar gael, roedd y tîm adolygu'n fodlon bod y Brifysgol yn cydweithio'n adeiladol gyda chyrrff allanol a'i bod, ar lefel sefydliadol, yn cadw trosolwg cyson o'r darganfyddiadau.

Arferion a gweithdrefnau asesu

58 Roedd adroddiad ar archwiliad Parhad 2000 yn cynghori'r Brifysgol i adolygu 'gwaith y byrddau arholi er mwyn sicrhau cydraddoldeb triniaeth rhwng adrannau/ ysgolion o safbwynt trefniadau i ddosbarthu gwobrau myfyrwyr'. Y cefndir i argymhelliad y panel blaenorol oedd y casgliad bod y rheoliadau dyfarnu cyfredol yn caniatáu amrywiaeth sylweddol wrth gyfrif a dosbarthu gwobrau. Hefyd dyfarnwyd ar yr un pryd bod y trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu maint yr amrywiaeth yn ddiffygiol.

59 Mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad, cyflwynodd y Brifysgol amryw o newidiadau o ran polisi a gweithdrefnau. Roedd y gweithredu'n cynnwys goruchwyliaeth a chymorth canolog i'r byrddau arholi, sefydlu Pwyllgor Gwobrau a Chynnydd sy'n ymchwilio i gydymffurfiaid byrddau arholi ac yn dyfarnu graddau'n ffurfiol; datblygiad Strategaeth Asesu'r Brifysgol a newid Rheoliadau Asesu'r Senedd sy'n cynnwys newid yn fframwaith penderfynu ar ddosbarthiadau graddau.

60 Mabwysiadwyd y Strategaeth Asesu yn 2005 ac mae'n rhoi canllawiau a chyfeiriad i'r holl weithgaredd asesu – yn seiliedig ar egwyddorion dilysrwydd, dibynadwyedd ac eglurder. Roedd gweithredu'r strategaeth yn golygu gweithredu ar ddwy lefel. Cyflwynwyd newidiadau rheoliadol er mwyn gwella cysondeb, ac, er mwyn sefydlu'r newidiadau ar lefel ysgol, penodwyd Hyrwyddydd Newid (aelod o'r staff academiaidd ar secondiad) yng Nghyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrwyr i weithio gydag ysgolion.

61 Mae cynnal asesiadau graddau ymchwil a graddau a addysgir yn cael ei reoli gan Reoliadau'r Senedd, a ategwyd gan Ganllawiau'r Senedd a gweithdrefnau eraill. Mae'r rheoliadau hyn yn cwmpasu holl weithgareddau arholi a byrddau arholi. Is-Bwyllgor Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd sy'n gyfrifol am ddrafftio a diweddarau Rheoliadau'r Senedd yn y maes hwn ac mae'r rheoliadau ar gael i staff ac i fyfyrwyr trwy'r Llawlyfr Rheoliadau Academiaidd. Trefnir pob arholiad ysgrifenedig yn ganolog gan Gyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrwyr, ond yr ysgolion sy'n gyfrifol am bob asesiad arall, gan gynnwys arholiadau myfyrwyr ymchwil. Nid yw'r ysgolion yn atebol yn uniongyrchol i'r Brifysgol ganolog am weinyddu asesiadau lefel

ysgol. Fodd bynnag, mae'r asesiadau lleol hyn, sy'n cyfrannu'n sylweddol at ganlyniadau terfynol, hefyd yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau arholwyr allanol ynghyd â'r arholiadau. Sefydli'r Byrddau Arholi gan ysgolion ac maen nhw'n ymreolaethol; ond mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â rheoliadau'r Senedd sy'n cwmpasu eu cyfansoddiad a'u gweithrediadau dan Gyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrrwyr sy'n rhoi cyngor a chymorth i fyrddau pan fydd eu hangen.

62 Yr unig fodd i wyrddroi penderfyniadau byrddau yw gwiriad ac apêl, neu pan fydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Rhaglenni'n ystyried penderfyniad yn afresymol neu'n anghynnaladwy. Gall byrddau fod yn unedig neu ar ddwy lefel, gan ddibynnu ar strwythur y rhaglenni a weinyddir ganddynt. Mae gan raddau cyd-anrhydedd fanylebau a llawlyfrau ar y cyd a chynhelir byrddau arholi ar y cyd. Fodd bynnag, trwy gyfarfodydd gyda staff a thrwy archwilio llawlyfrau myfyrwyr, roedd y tîm adolygu'n canfod ei bod yn bosibl i rannau o gyd-raddau gael meini prawf gwahanol a hyd yn oed trothwy pasio gwahanol. Lleddfir problemau o driniaeth anghyfartal a allai fod yn ganlyniad i hyn trwy gyfathrebu rhwng ysgolion a gwaith byrddau cyd-arholi ac arholwyr allanol.

63 Yn dilyn datblygu'r Strategaeth Asesu, paratoir adroddiad blynyddol ar asesu gan Gyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrrwyr a gyflwynir i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd. Mae'r adroddiad yn defnyddio amryfal ffynonellau gan gynnwys adroddiadau gan arholwyr allanol, adroddiadau'r Pwyllgor Gwobrau a Chynnydd, achosion myfyrwyr ar apêl a lefelau cyrhaeddiad myfyrwyr ar draws y Brifysgol. Mae hefyd yn archwilio mesurau a dangosyddion sy'n ymwneud ag egwyddorion sylfaenol – dilysrwydd, dibynadwyedd ac eglurder. Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad yn ategiad i argymhellion gweithredu i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd ac yn cofnodi camau a gymerir mewn manau eraill i ddelio â materion a godwyd.

64 Mae llwyddiant y Strategaeth Asesu'n dibynnu ar weithredu effeithlon ar lefel ysgol. Gofynnir i ysgolion fynegi a dosbarthu gwybodaeth i fyfyrwyr am bob agwedd o'u hasesiad gan gynnwys y confensiynau a ddefnyddir gan fyrddau arholi i ddyfarnu. Roedd myfyrwyr, gan gynnwys y rhai a gyfarfu'r panel, yn teimlo, er bod meinciau prawf asesiadau ar gael mewn llawlyfrau ac ar y we, roedden nhw'n anodd i rai eu deall a heb fod o unrhyw ddefnydd. Mae hefyd yn ofynnol i ysgolion ddatblygu gweithdrefnau i sicrhau bod marcio'n ddibynadwy ac yn gyson. Mae'r Adolygiad Cynnydd Ansawdd yn gwirio cydymffurfiad ysgolion gydag amrediad o ofynion asesu ac mae'n archwilio amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau lleol.

65 Mae'n ofynnol i bolisiau a gweithdrefnau asesu lleol, sy'n gorfod cydymffurfio â chanllawiau'r Brifysgol, dderbyn cymeradwyaeth byrddau astudiaethau a byrddau ysgol. Fodd bynnag, mae arholwyr allanol yn nodi bod enghreifftiau o ddiffyg cysondeb mewn gweithdrefnau marcio ac asesu'n dal i godi o fewn a rhwng ysgolion. Wrth adolygu deunyddiau'n perthyn i ysgolion gwahanol, nododd y tîm adolygu bod fframweithiau'r Brifysgol yn dal i ganiatáu amrywiaethau nodedig mewn meysydd fel meinciau prawf safoni ac asesu. (gw. Paragraff 28).

66 Penderfynodd adolygiad allanol o raddau ymchwil a gynhaliwyd yn 2006 fod y trefniadau ar gyfer asesu myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn foddhaol a chanmolwyd y canllawiau eglur a osodwyd ar gyfer trefnu arholiadau graddau ymchwil.

67 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen parhau â'r gwaith i weithredu'n llawn y Strategaeth Asesu. I hyrwyddo hyn, ehangwyd swyddogaeth yr hyrwyddydd newid i barhau â'r gwaith gydag ysgolion a sefydlwyd prosiectau penodol fel ymarfer meincnodi ar y gyfran o raddau Cyntaf ac Ail Uwch a ddyfarnwyd.

68 Penderfynodd y tîm adolygu fod y Brifysgol wedi wynebu'r pryderon a fynegwyd yn yr adroddiad archwilio Parhad am weithredu'r byrddau arholi, mewn modd priodol ac effeithlon. Hefyd nodwyd asesu fel blaenoriaeth strategol a neilltuwyd adnoddau sylweddol i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Asesu. Mae'r Brifysgol wedi nodi egwyddorion eglur sy'n sail i arfer asesu da ac wedi sefydlu trefniadau i fonitro'r cynnydd a wneir o ran gwireddu'r egwyddorion hyn.

Arholwyr allanol a'u hadroddiadau

69 Roedd y ddogfen hunan asesu'n datgan bod arholwyr allanol yn 'cyflawni swyddogaeth anhepgor o ran monitro a chynnal safonau academiaidd gwobrau Prifysgol Caerdydd'. Hefyd nododd y ddogfen fod y gweithdrefnau'n ymwneud ag arholwyr allanol yn 'mwyhau effaith allanolrwydd' ac yn atgyfnerthu'r sefydliad 'gan eu bod yn sicrhau ymateb gan Ysgolion ar faterion manwl ... ond hefyd yn rhoi trosolwg cyfannol'.

70 Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau arholwyr allanol yn osodedig gan y Senedd ac yn cydymffurfio â'r *Cod ymarfer i sicrhau ansawdd a safonau academiaidd mewn addysg uwch (Cod Ymarfer) Adran 4: Arholi Allanol*. Mae'r gweithdrefnau a'r arferion sy'n ymwneud ag arholwyr allanol hefyd wedi elwa oddi wrth bapur y QAA ar arholwyr allanol *Deilliannau Archwiliad Sefydliadol*. O ganlyniad i newidiadau diweddar yng nghyfrifoldebau pwyllgorau, mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros arholi allanol pob gwobr gan gynnwys gwobrau ymchwil a oruchwyliwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Datblygu Graddedigion. Mae Arholwyr Allanol ar raglenni a addysgir yn cael llawlyfr sy'n amlinellu eu holl ddyletswyddau. Rhoddir rhestr wirio i ysgolion sy'n nodi'r wybodaeth leol i roi i arholwyr allanol ac sy'n annog ysgolion i drefnu bod arholwyr allanol newydd yn ymweld ag ysgolion fel rhan o'u cyfnod sefydlu. Mae'r hyn a ddisgwylir gan arholwyr allanol graddau ymchwil wedi'i amlinellu yn y Llawlyfr Graddau Ymchwil.

71 Mae'r meini prawf ar gyfer enwebu arholwyr allanol wedi'u llunio i sicrhau annibyniaeth barn a'r arbenigedd priodol. Enwebir arholwyr allanol ar raglenni a addysgir gan ysgolion â Chyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrrwyr yn gwirio bod y rhai a enwebir yn cyrraedd y meini prawf. Yna cyflwynir yr enwebiad i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd i gael cymeradwyaeth ffurfiol. O ganlyniad i adolygiad diweddar, yn y dyfodol, bydd y mwyafrif o enwebiadau'n cael eu cymeradwyo gan Gyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrrwyr, gydag awdurdod wedi'i ddirprwyo gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd. Penodiadau sydd heb gyrraedd y meini prawf priodol, adnewyddiadau cytundeb a phenodiadau newydd yw'r unig enwebiadau a fydd yn mynd at Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw neu'r pwyllgor llawn. Fel arfer, penodir arholwyr allanol ar raglenni a addysgir am dair blynedd â'r posibilrwydd o estyniad am bedwaredd flwyddyn. Mae rheoliadau'r Senedd yn darparu ar gyfer diswyddo arholwr allanol pan fydd ef neu hi'n methu â chyflawni'r dyletswyddau.

72 Mae'r enwebiadau ar gyfer arholwyr allanol mewn graddau ymchwil yn mynd trwy'r un broses yn fras â'r rhai ar gyfer graddau a addysgir. Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr fydd yn eu cymeradwyo. Penodir arholwyr allanol darpariaeth gydweithredol o fewn yr un fframwaith ac maen nhw'n gweithio yn yr un fframwaith. Ond maen nhw hefyd yn cael eu briffio ar natur arbennig y ddarpariaeth gydweithredol. Mae Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr yn monitro penodiadau arholwyr allanol ar raglenni a addysgir i sicrhau bod ysgolion yn gwneud enwebiadau mewn da bryd. Er gwaethaf hyn, mae nifer sylweddol o swyddi arholwyr allanol yn dal yn wag ar ddechrau sesiwn academaidd, er bod y rhain fel arfer wedi'u llenwi cyn yr arholiadau diwedd blwyddyn.

73 Mae swyddogaeth arholwr allanol graddau a addysgir yn canolbwyntio ar gymeradwyo a chymedroli arholiadau ac unrhyw elfennau asesu eraill sy'n cyfrannu mwy na 50% o'r asesiad ar unrhyw fodiwl. Disgwylir i arholwyr allanol fynychu byrddau arholi. Mae Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr yn monitro presenoldeb arholwyr allanol mewn byrddau arholi. At ei gilydd, mae eu presenoldeb yn dda – ond mae'n amrywio rhwng ysgolion.

74 Mae'n ofynnol i arholwyr allanol ar raddau a addysgir adrodd yn ôl yn flynyddol i'r Brifysgol ar safon y gwobrau, ar berfformiad myfirwyr a dilysrwydd a thegwch y gweithdrefnau asesu. Anfonir adroddiadau'n ffurfiol at Gyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr a bydd y rhain yn cydnabod eu derbyn ac yn nodi unrhyw bynciau sy'n mynnu ymateb sefydliadol. Yna anfonir yr adroddiad, ynghyd â chais am ymateb, at yr ysgol neu'r adran ddarparu briodol. Bydd ysgolion yn ystyried adroddiadau arholwyr allanol ac yn rhoi ymateb trwy'r broses Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol. Mae rhan olaf y broses yn cynnwys Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr sydd, nid yn unig yn anfon llythyr yn amlinellu ymateb yr ysgol i unrhyw bwnc a godwyd, ond hefyd yn paratoi adroddiad cryno generig am yr holl sylwadau gan arholwyr allanol (gweler paragraff 76). Mae'n ofynnol i ysgolion drefnu gweithdrefnau i rannu adroddiadau arholwyr allanol ar raglenni a addysgir gyda myfirwyr – fel arfer trwy gynrychiolwyr myfirwyr ar fyrddau astudiaethau.

75 Mae Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr hefyd yn derbyn ac yn archwilio adroddiadau arholwyr allanol ar raddau ymchwil ac yn trafod unrhyw broblemau gydag ysgolion. Gofynnir i ysgolion am eu sylwadau am ddewis ac enwebu arholwyr allanol, am y trefniadau arholi ac am adolygu deilliannau yn eu Hadolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol.

76 Mae'r Brifysgol yn cadw goruchwyliaeth dros sylwadau arholwyr allanol trwy waith y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'i Is-Bwyllgor Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol. Mae'r olaf yn derbyn adroddiad manwl gan Gyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr sy'n cwmpasu arfer da ac unrhyw broblemau a nodwyd gan arholwyr allanol yn y flwyddyn flaenorol a throsolwg o bresenoldeb arholwyr allanol mewn byrddau asesu. Dadansoddir unrhyw broblemau a godir gan arholwyr allanol yng nghyd-destun prif amcanion y Strategaeth Asesu a, phan fydd hynny'n briodol, atodir argymhellion am weithredu gan ysgolion neu grwpiau eraill.

77 Mae adolygiad blynyddol o sylwadau arholwyr allanol yn cymharu mynychder ymddangosiad yr un problemau dros gyfnod. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw arbennig i

broblemau sy'n barhaus neu sy'n cynyddu mewn pwysigrwydd. Mae Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrrwyr yn cydweithio'n rhagweithiol gydag ysgolion i sicrhau dosbarthu'r arferion da a nodir yn yr adroddiad.

78 Ar ôl trafodaeth a gwelliannau, mae'r Is-Bwyllgor Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol yn anfon yr adroddiad blynyddol ar sylwadau'r arholwyr allanol at y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd i'w drafod ac i'w nodi. Mae'r Pwyllgor hwn yn trafod y dadansoddiad o adroddiadau'r arholwyr allanol ar raddau a addysgir a graddau ymchwil.

79 Y Pwyllgor Gwobrau a Chynnydd sy'n cymeradwyo'n ffurfiol y gwobrau graddau i fyfyrwyr, ar sail argymhellion y byrddau arholi. Mae'r byrddau arholi'n llunio adroddiad am y gweithdrefnau a ddefnyddir mewn byrddau arholi i Gyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrrwyr sy'n briffio'r Pwyllgor Gwobrau a Chynnydd.

80 Roedd y tîm adolygu'n gallu ategu bod y Brifysgol yn gwneud defnydd da a chydwybodol o'i arholwyr allanol a bod rheoliadau'r Brifysgol wedi'u llunio i sicrhau bod arholwyr allanol yn cyfrannu safbwyntiau sy'n seiliedig ar brofiad ac annibyniaeth. Ni ellir dyfarnu graddau heb i'r Pwyllgor Gwobrau a Chynnydd wirio cefnogaeth arholwyr allanol. Mae Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfyrrwyr yn monitro penodiadau a phresenoldeb ac yn dadansoddi'n fanwl y sylwadau, cadarnhaol a negyddol, a wneir gan allanolion am bolisiau'r Brifysgol ar asesu ac ar gynnal safonau. Mae'r dadansoddiad hwn yn cyfrannu at y cyngor i ysgolion ac eraill yn ogystal â chyfrannu at addasu polisiau a rheoliadau ac agenda gwella'r Brifysgol.

81 Penderfynodd y tîm adolygu fod haeriadau'r ddogfen hunan-werthuso am bwysigrwydd swyddogaeth arholwyr allanol wrth reoli safonau academaidd yn cael eu hadlewyrchu yn y defnydd a wneir o arholwyr allanol a'u hadroddiadau. Mae'r Brifysgol wedi cymryd cam tuag at atgyfnerthu'r broses hon trwy uno'r oruchwyliaeth o sylwadau arholwyr allanol ar raddau a addysgir a graddau ymchwil.

Derbyn myfyrwyr a'r defnydd a wneir o ystadegau cynnydd a chwblhau

82 Mae'r ddogfen hunan-werthuso'n datgan bod Gofynion Mynediad Cyffredinol y Brifysgol wedi'u llunio yn ystod y broses o ennill Hawliau Dyfarnu Graddau ac wedi'u diwygio wedyn i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol newydd. Yn 2006, mabwysiadwyd Polisi Iaith Saesneg a oedd yn nodi'r lleiafswm o allu i ddeall Saesneg a fyddai'n angenrheidiol i gael mynediad. Mae'r penderfyniad ffurfiol i dderbyn myfyrwyr yn nwylo ysgolion gyda'r amod bod y penderfyniad yn cwrdd â meini prawf derbyn cyffredinol y Brifysgol. Mae'n ofynnol i ysgolion fynegi'n eglur lleiafswm gofynion derbyn y Brifysgol.

83 Yn 2007, sefydlodd y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, yn cynnwys aelodau o blith myfyrwyr, i ddatblygu Fframwaith Derbyn i'r Brifysgol. Ymhlith argymhellion y Grŵp roedd sefydlu Is-Bwyllgor Derbyniadau yn atebol i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd i gadw goruchwyliaeth dros bolisiau derbyn ar lefel prifysgol ac ar lefel ysgol ac i weithredu argymhellion y grŵp adolygu.

84 Ers adroddiad yr archwiliad Parhad 2000 mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn technoleg i wella ansawdd ac argaeledd data am fyfyrwyr. Gwnaed newidiadau yn y broses fonitro flynyddol ac yn yr oruchwyliaeth gan bwyllgorau allweddol er mwyn sicrhau bod data ystadegol yn cael ei drafod yn effeithlon ar bob lefel.

85 Cyflwynwyd system wybodaeth newydd i fyfyrwyr a elwir SIMS ar ôl archwiliad Parhad 2000. Mae SIMS yn ategu ystod eang o wasanaethau rheoli ac yn cynhyrchu data ar gyfer cofnodi gwybodaeth yn fewnol ac yn allanol am ystadegau gweithredu, cynyddu a chwblhau. Datblygwyd y system ymhellach yn dilyn yr uno ac fe'i hadolygwyd yn 2005-06. Nododd y tîm adolygu fod y prosiect SIMS yn canolbwyntio'n drwm ar anghenion defnyddwyr canolog ond roedd y budd ar lefel ysgolion yn gyfyngedig. O ganlyniad, nododd y tîm fod anfodlonrwydd dwfn yn lleol â'r system a'r dechnoleg y tu ôl i SIMS. Roedd yr adroddiad yn argymhell cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar atgyfnerthu partneriaeth rhwng y ganolfan a'r ysgolion, gwell mynediad at ddata i staff a myfyrwyr a gwell effeithlonrwydd. Mae'r cynllun gweithredu'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

86 Mae'r system SIMS yn darparu amrediad o adroddiadau gan gynnwys set o 18 adroddiad i ategu prosesau monitro blynyddol; datblygwyd hwn ar ôl ymgynghori ag ysgolion. Mae'r adroddiadau hyn yn cwmpasu meysydd fel data derbyniadau, nifer myfyrwyr, cymwysterau derbyn, data asesu, data cynnydd a chwblhau a phroffil dosbarthiadau graddau. Darperir y wybodaeth yn agrededig er mwyn galluogi defnyddwyr i gael mynediad at lefelau mwy manwl. Paratoir adroddiadau safonol gyda'r bwriad o hyrwyddo defnydd i reolwyr mewn cynllunio yn ogystal ag adolygu. Rhoddir data cynllunio ariannol i ysgolion ar fformat safonol, er mwyn hwyluso ymagwedd cyson a chynllunio integredig ar draws y sefydliad. Mae'r system hefyd yn darparu data a lwythir i fyny ar Unistats ar gyfer defnydd allanol.

87 Mae'r prosiect Amgylchedd Gwaith TG Modern yn hyrwyddo datblygiadau diddorol sy'n galluogi systemau gwybodaeth reoli i fod yn fwy cyson, yn fwy dibynadwy ac yn fwy hygyrch. Mae hyn yn rhan o weithredu'r Brifysgol i ganfod diffygion gwybodaeth a chynyddu gallu technegol a gwella'n gyson y data a roddir i ysgolion.

88 Mae data ystadegol yn hanfodol i'r broses Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol. Mae ysgolion yn derbyn adroddiadau safonol trwy'r system SIMS ond maen nhw hefyd â'r rhyddid i ddefnyddio data lleol pan fydd hyn yn cynnig cronfa ddata cyfartal neu un well. Mae SIMS yn gymorth i fyrddau arholi ond nid yw gwneud defnydd ohono'n orfodol eto. Mewn rhai ysgolion, llwythir data i fyny ar ôl i gyfarfodydd byrddau ddigwydd ond mae'r risg yn y broses hon yn llai oherwydd y gwirio a dilysu canolog sy'n digwydd cyn trosglwyddo'r wybodaeth i'r Pwyllgor Gwobrau a Chynnydd. Ar ôl datblygiad pellach yn y system SIMS, disgwylir y bydd pob bwrdd arholi'n defnyddio data SIMS.

89 Mae'r Brifysgol yn paratoi adroddiad cyfansawdd blynyddol ar asesu. Cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, sydd yn ei dro'n adrodd yn ôl i'r Senedd ac yn cyfeirio unrhyw broblemau a godir yn yr adroddiad at bwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill i'w trafod ac i weithredu. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwadau am gynnydd myfyrwyr ar lefel agrededig a'r bwriad yw ymestyn y dadansoddiad data i gynnwys perfformiad cymharol myfyrwyr mewn gwahanol ddisgyblaethau ac o wahanol gefndiroedd fel rhan o waith y Brifysgol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn y dyfodol, bwriedir cael dadansoddiadau o dueddiadau dros gyfnod.

90 Mae gan y Pwyllgor Gwobrau a Chynnydd, a sefydlwyd ar ôl archwiliad Parhad 2000 gyfrifoldeb hefyd dros gynnydd a chwblhau cyrsiau myfyrwyr. Am y tro cyntaf

eleni bydd y Pwyllgor Gwobrau a Chynnydd yn rhoi adroddiad i'r Senedd fydd yn rhoi trosolwg o berfformiad myfyrwyr i ategu'r Adroddiad Asesu.

91 Paratoir adroddiadau i fonitro strategaethau fel y fframwaith mynediad gyda data am broffiliau ymgeiswyr a myfyrwyr yn gysylltiedig â llwyddiant academaidd. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn hyrwyddo monitro effeithlonrwydd y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd y ddogfen hunan-werthuso'n nodi bod angen mwy o waith i greu trefniadau i ddadansoddi a chofnodi data a chynnal mwy o asesiadau effaith.

92 Mae'r Brifysgol wedi amlinellu wyth maes perfformiad eang sy'n gosod sail i strategaethau a chynlluniau ar lefel sefydliadol. Adolygir perfformiad yn y manau hyn gan y Brifysgol a chyflwynir adroddiad cryno i'r Cyngor. Mae adolygiad ymgynghorol o systemau gwybodaeth rheolwyr yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gyda'r bwriad o ddistyllu'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n anelu at gynorthwyo rheolaeth, arweinyddiaeth a rheoli. Disgwylir i'r dangosyddion allweddol hyn hyrwyddo'r cydymffurfriad rhwng gweithgaredd ysgolion a strategaethau'r Brifysgol.

93 Penderfynodd y tîm adolygu fod y Brifysgol wedi cymryd camau breision ers archwiliad Cynnydd 2000 o ran cynhyrchu a gwneud defnydd o wybodaeth i reolwyr. Er nad yw eto wedi'i ddatblygu'n llwyr, mae'r system SIMS yn rhoi'r gallu i gofnodi a dadansoddi data myfyrwyr ar lefel y brifysgol ac ar lefel ysgol. Mae prosiectau ar waith i wella effeithlonrwydd y system a chynyddu'r defnydd o ddata ystadegol mewn rheolaeth ansawdd a safonau yn ganolog ac yn lleol o fewn y sefydliad.

94 Gwelodd y tîm adolygu enghreifftiau o'r defnydd o ddata ystadegol i fonitro effaith polisiâu fel y fframwaith derbyn. Nododd y tîm hefyd fod gwaith wedi dechrau ar ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a fydd yn hyrwyddo monitro gweithgaredd ysgolion yn erbyn polisiâu a thargedau'r Brifysgol. Penderfynwyd bod y Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth ystadegol oedd ar gael ac yn cymryd y camau priodol i gynyddu'r ystod o ddata sydd ar gael ac atgyfnerthu'r defnydd a wneir ohono ar bob lefel.

Cyferbwyntiau allanol

95 Mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'i is bwyllgor Rheoliadau'n gyfrifol am sicrhau bod arfer y Brifysgol yn adlewyrchu amrediad o gyferbwyntiau allanol ar ran y Senedd. Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ar alinio ac ymateb i'r cyferbwyntiau dan sylw a'u datblygiad. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hunan-werthuso'n nodi nad yw'r Rhwydwaith Academaidd mewnol bellach yn penderfynu ar flaenoriaethau sefydliadol ar gyfer datblygu mor gadarn ag yn y gorffennol gan fod arferion wedi'u seilio ar, ymhlith pethau eraill, y *Cod Ymarfer*, wedi'u sefydlu. O ganlyniad, mae'r ffocws yn awr ar wella parhaus.

96 Roedd y ddogfen hunan-werthuso'n rhoi nifer o enghreifftiau lle'r oedd y sefydliad wedi gwirio bod polisiâu'r Brifysgol wedi'u halinio gyda'r *Cod ymarfer*. Adlewyrchir diwygiadau i'r *Cod* yn ystod diweddarau polisiâu mewn meysydd perthnasol ac mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd o wybodaeth ehangach yn ymwneud â'r *Cod*. Er enghraifft, datblygwyd Rhestr Wirio Ysgol ar gyfer Cefnogi Arholwyr Allanol yng ngoleuni cyhoeddi'r papur QAA ar *Ddeilliannau archwiliad sefydliadol* yn ymwneud ag arholwyr allanol.

97 Mae'r *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (CQFW) yn hysbysu'r rheoliadau ar gyfer graddau fel y nodwyd gan y Senedd ac i'w gweld yn y Llawlyfr Rheoliadau Academaidd. Mae'r broses cymeradwyo cyrsiau'n gofyn am gyfeiriad clir at y CQFW, datganiadau meincnodi pwnc ac adrannau perthnasol o'r *Cod ymarfer*. Mae templed Prifysgol ar gyfer ysgrifennu manylebau rhaglenni sy'n cael eu gwirio ar gyfer arian cyfred yn ystod cymeradwyo rhaglenni newydd ac Adolygu ac Ail ddilysu Cyfnodol. Mae manylebau modiwlau hefyd yn dilyn strwythur cyffredin. Gofynnir i arholwyr allanol graddau a addysgwyd roi sylwadau yn eu hadroddiadau blynyddol i ba raddau y mae myfyrwyr yn cyflawni deilliannau unrhyw feincnod pwnc sy'n berthnasol i'r radd.

98 Mae cynlluniau wedi'u llunio i ateb y gofyn am ffeiliau cynnydd drwy gynllunio datblygiad personol. Ar ôl ymgynghori ag ysgolion, datblygwyd Fframwaith Polisi Prifysgol sy'n amlinellu'r lleiafswm o ddisgwyliadau y gall ysgolion eu datblygu ymhellach yn lleol. Sylwodd y tîm adolygu ar enghraifft o integreiddio cynllunio datblygiad personol yn llwyddiannus i mewn i gwricwlwm myfyrwyr peirianeg sydd hefyd yn ystyried gofynion corff proffesiynol.

99 Fel sefydliad yng Nghymru, disgwylir i'r Brifysgol fod â Chynllun Iaith Gymraeg. Mae'n cael ei reoli gan adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg y Brifysgol. Sefydlwyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac mae'n cydymffurfio â gofynion y Bwrdd. Mae'n cynnwys pob agwedd o gyfathrebu ynghyd ag addysgu, dysgu ac asesu. Mae'r adran yn gorwedd o fewn portffolio Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n adrodd yn ôl yn flynyddol i Gyngor y Brifysgol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg am ei weithgareddau. Mae'r Brifysgol hefyd yn sensitif i ofynion polisi sy'n deillio o'r Cynulliad Cenedlaethol a gofynion cyrff Cymreig fel Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru. Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn trafodaethau strategol gydag adrannau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn bwydo blaenoriaethau i mewn i'w strategaethau a'i chynlluniau ei hun.

100 Mae'r Brifysgol yn gosod ei hun fel aelod o'r Grŵp Russell ac yn sefydliad hunan-feirniadol sy'n dilyn cyferbwyntiau allanol yn weithredol. Er mwyn datblygu ei phrosesau sicrwydd ansawdd ymhellach, mae swyddogion y Brifysgol yn cymryd rhan weithredol mewn cyrff a grwpiau allanol sy'n ymwneud â Seilwaith Academaidd a chyferbwyntiau allanol ar lefelau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol wedi gwneud defnydd llawn ac effeithlon o gyferbwyntiau allanol wrth reoli ansawdd a safonau.

Cynrychiolaeth myfyrwyr ar lefel leol a sefydliadol

101 Mae myfyrwyr yn cyfranogi ar bob lefel o'r strwythur trafod ac mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o fyfyrwyr ar brif bwyllgorau'r Brifysgol. Mae myfyrwyr yn aelodau o'r Cyngor a nifer o'i bwyllgorau ac mae cynrychiolaeth o fyfyrwyr ar bob pwyllgor academaidd y Senedd heblaw am y Pwyllgor Ymchwil. Er bod ysgolion yn cael rhywfaint o ryddid o safbwynt aelodaeth eu pwyllgorau, disgwylir iddyn nhw roi cyfleoedd i fyfyrwyr 'gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau am faterion academaidd'. Sefydlir paneli staff/myfyrwyr ar gyfer pob rhaglen a disgwylir i ysgolion gynnwys cynrychiolaeth o fyfyrwyr ar eu pwyllgorau dysgu ac addysgu a byrddau astudio. Daw cadeirydd ac ysgrifennydd pob panel staff/myfyrwyr o blith y myfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw myfyrwyr yn cael eu cynrychioli ar fyrddau ysgolion.

102 Yn ychwanegol at y trefniadau ar gyfer cynrychiolaeth o fyfyrwyr ar bwyllgorau'r Brifysgol, mae lle i gyfranogiad myfyrwyr yn uniongyrchol mewn rhai o brosesau sicrwydd ansawdd y Brifysgol. Yn benodol, mae myfyrwyr sy'n aelodau o baneli ymgynghori ysgolion ar gyfer cymeradwyo rhaglenni ac mae myfyrwyr yn cyfrannu at yr Adolygiad Blynyddol a'r gweithdrefnau Gwerthuso drwy eu haelodaeth o is bwyllgorau'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Pwyllgor Datblygu Graddedigion.

103 Roedd cyfraniad ysgrifenedig y myfyrwyr yn rhoi cyfoeth o wybodaeth am y camau a gymerwyd gan Undeb y Myfyrwyr i sicrhau effeithlonrwydd cynrychiolaeth myfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Cyngor Academaidd a chydweithio gyda'r Gofrestrfa i ganfod, hyfforddi a chefnogi cynrychiolwyr myfyrwyr. Nododd y tîm adolygu hefyd y Llawlyfr Cynrychiolwyr Cyrsiau cynhwysfawr a defnyddiol sy'n cael ei gyhoeddi gan Undeb y Myfyrwyr. Dywedwyd bod 'system cynrychiolwyr cwrs canolog' yn cael ei ddatblygu ar y cyd rhwng yr Undeb a'r Brifysgol a bod aelod o staff y Brifysgol wedi'i benodi i fod yn gyswllt rhwng yr ysgolion, y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.

104 Yng nghyfarfodydd amrywiol y tîm adolygu gyda'r staff a myfyrwyr, disgrifiwyd yr olaf fel 'aelodau' yn hytrach na 'chwsmeriaid' y Brifysgol. Ystyriodd y tîm fod hwn yn ddisgrifiad cywir o statws myfyrwyr a'u perthynas gyda'r sefydliad. Daeth i'r casgliad bod y bartneriaeth effeithlon a ffurfiwyd rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a threfniadau'r Brifysgol i sicrhau cyfranogiad myfyrwyr mewn prosesau sicrwydd ansawdd a phwyllgorau lefel brifysgol yn nodweddiadol o arfer da.

Adborth oddi wrth fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr

105 Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm adolygu fod amrywiaeth o drefniadau lle gallan nhw roi adborth am eu profiadau dysgu. Trafodwyd y rhain yn fanwl yn y ddogfen hunan-werthuso. Yn ychwanegol at y trefniadau ffurfiol ar gyfer cynrychiolaeth o fyfyrwyr (gweler paragraff 101), mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ar y cyd yn nodi Prosiect Q sy'n arolwg myfyrwyr systematig traws-sefydliadol yn canolbwyntio ar gylch bywyd myfyrwyr. Yn 2007, roedden nhw'n comisiynu tîm o ymchwilyddwyr gwyddorau cymdeithasol i 'gynnal dadansoddiad systematig, integredig a gwerthusiad o adborth myfyrwyr' a gafwyd o amrywiol ffynonellau gan gynnwys Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr ac uwch aelodau'r Brifysgol.

106 Mae ysgolion yn cynnal holiaduron modiwl a rhaglen yn rheolaidd. Er bod y rhain wedi'u llunio a'u gweinyddu'n lleol, disgwylir i ysgolion gadarnhau effeithlonrwydd eu trefniadau drwy brosesau Adolygiad Rhaglenni Blynyddol ac Adolygiad Cynnydd Gwerthuso ac Ansawdd. Yn y dyfodol, bydd hyn yn cael ei gyfannu gan ddadansoddiad ac adolygiad adborth drwy holiadur a ddsberthir yn sesiynau hyfforddi cynrychiolwyr myfyrwyr. Hefyd, mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn ceisio gwella'r system gyfathrebu rhwng cynrychiolwyr myfyrwyr a'r rhai y maen nhw'n eu cynrychioli drwy'r cynnig i greu porth penodol sydd ynghlwm i'w gwefannau perthynol.

107 Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol yn derbyn adborth gan raddedigion. Mae gan nifer, ond nid pob un, o'r ysgolion bwyllgorau ymgynghori a ddisgrifir fel rhai sy'n rhoi 'cyfle i bersonau allan mewn swyddi uwch yn eu maes ... ystyried a

chyngori ysgolion ar faterion fel polisiau, adnoddau, darpariaeth academaidd ac ymchwil'. Er nad oes unrhyw gyfansoddiad wedi'i ragnodi ar gyfer y pwyllgorau hyn, mae eu haelodaeth fel arfer yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr.

108 Roedd y myfyrwyr a gyfarfu'r tîm adolygu'n ystyried bod y Brifysgol fel arfer yn ymatebol i'r adborth y maen nhw'n ei roi. Er eu bod yn teimlo bod pwyllgorau weithiau'n araf yn gweithredu ar adborth myfyrwyr, mae'r sianel gyfathrebu hon yn cael ei hategu gan amrywiaeth o drefniadau effeithlon sy'n cynnwys hygyrchedd staff gan gynnwys uwch reolwyr y Brifysgol a chyfleoedd y mae hyn yn eu darparu ar gyfer adborth uniongyrchol ac anffurfiol. Hefyd, gwelodd y tîm dystiolaeth i gefnogi barn y Brifysgol fod ei gweithdrefnau sicrwydd ansawdd yn ymatebol ac yn arwain at weithredu effeithlon ar yr adborth a gafwyd gan fyfyrwyr. Mae'r trefniadau hyn i gael adborth gan fyfyrwyr ac ymateb iddo, yn rhoi tystiolaeth bellach i gefnogi casgliad y tîm bod partneriaeth effeithlon wedi'i sefydlu rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i wella ansawdd profiad dysgu myfyrwyr. Ystyriodd y tîm fod hwn yn enghraifft o arfer da.

Gweithdrefnau ar gyfer cwynion ac apeliadau myfyrwyr

109 Mae gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion ac apeliadau myfyrwyr i'w gweld yn Llawlyfr Rheoliadau Academaidd sydd ar gael i'r staff fel copi caled ac ar gael i bawb ar lein. Adolygwyd y gweithdrefnau'n ddiweddar i sicrhau alinio gyda'r *Cod ymarfer, Adran 5: Apeliadau academaidd a chwynion myfyrwyr ar faterion academaidd*.

110 Mae'r weithdrefn gwynion a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn cynnwys materion sy'n ymwneud â chyflenwi rhaglenni ymchwil a addysgir ac ôl-radd; cymorth academaidd, gweinyddol a bugeiliol; a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth. Mae gweithdrefnau ar wahân yn gymwys i faterion a gwasanaethau eraill. Mae sawl cam i'r weithdrefn ar gyfer delio â chwynion. Mae'r tri cham cyntaf yn anffurfiol gan ddechrau gyda myfyriwr yn codi'r mater gyda'r person sy'n gyfrifol am y broblem a symud wedyn at diwtor y myfyriwr ac yn y pen draw Pennaeth yr Ysgol neu'r Adran. Mae terfyn amser penodol ar gyfer cwblhau bob cam. Rheolir y rhannau ffurfiol o'r weithdrefn gan yr Uned Cydymffurfio Corfforaethol. Mae'r weithdrefn yn rhoi cyfle, pan fydd yn briodol, i gynnwyl byrddau a gwrandawiadau i ymchwilio i'r cwyn. Mae'n bosibl y gall myfyrwyr gael hawl i apelio ymhellach yn erbyn deiliant y cwyn at banel apeliadau cwynion sy'n cynnwys aelod lleyg o'r Cyngor sy'n gweithredu fel cadeirydd, aelod o'r Senedd a Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Yn y pen draw, gall myfyriwr apelio at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

111 Mae'r Uned Cydymffurfio Corfforaethol yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar gwynion myfyrwyr i'r Pwyllgor Rheolaeth a sefydlwyd yn ddiweddar. Ar hyn o bryd, mae hwn yn canolbwyntio ar gwynion a gyfeiriwyd at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ond bydd cynllun monitro diweddar yn caniatáu adroddiad am holl wybodaeth bob cwyn yn y dyfodol. Bydd yr adroddiad yn cael ei lunio i ganfod materion sicrwydd ansawdd ac yn rhoi adborth i gyrff perthynol.

112 Mae'r Weithdrefn Gwirio ac Apelio ar gyfer myfyrwyr ar raglenni a addysgr a Gweithdrefn Apelio'r Brifysgol ar gyfer y rhai ar raddau ymchwil, yn caniatáu i fyfyrwyr apelio yn erbyn penderfyniad bwrdd arholi. Caniateir apeliadau ar dir a ddiffiniwyd yn glir – camgymeriadau wrth gyfrif marciau, diffygion mewn gweithdrefnau ac amgylchiadau

anghyffredin cyfyngedig sy'n effeithio ar ymgeisydd. Ar gyfer graddau ymchwil – gall rhagfarn arholwr a diffyg goruchwyllo fod yn achos apelio.

113 Adran Achosion Myfyrwyr o Gyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr sy'n delio ag apeliadau a'r dirprwy is ganghellor fydd yn eu hystyried. Mae'n bosibl y bydd apeliadau sy'n cael eu derbyn yn cael eu clywed gan fwrdd apêl arbennig neu'n cael eu cyfeirio'n ôl at y bwrdd arholi i gymryd camau pellach. Cyfeirir apeliadau gan fyfirwyr ymchwil at y dirprwy is ganghellor sy'n penderfynu a ddylid cynnal bwrdd apêl ai peidio. Mae gan fyfirwyr hawl i adolygiad pellach gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

114 Mae'r Brifysgol yn edrych ar geisiadau am wirio ac apeliadau ar raglenni a addysgir fel mesur dibynadwyedd ei gweithdrefnau asesu yn Adrodd Blynnyddol Asesu a gyflwynir i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd. Y Pwyllgor Datblygu Graddedigion sy'n gyfrifol am gymryd trosolwg o apeliadau a wneir gan fyfirwyr ymchwil drwy'r broses flynyddol o adrodd yn ôl.

115 Dywedodd y myfyrwyr oedd yn cyfarfod y panel fod y gweithdrefnau cwynion ac apeliadau'n gweithio'n effeithlon. Roedd gwybodaeth a gafwyd gan y Brifysgol am y gweithdrefnau ar gael ac yn hygyrch ac ategwyd at hyn gan wybodaeth, cyngor a chymorth sydd ar gael gan y Ganolfan Cyngor a Chynrychiolaeth.

116 Dangosodd y Brifysgol yn y ddogfen hunan-werthuso ei bod yn ystyried bod y trefniadau ar gyfer delio ag apeliadau a chwynion, yn effeithlon. Seiliwyd y farn hon ar bresenoldeb gweithdrefnau strwythurol; alinio gweithdrefnau gyda'r *Cod ymarfer*; y pwyslais ar setlo materion yn gynnar drwy ddefnyddio prosesau anffurfiol; hyblygrwydd i sicrhau ei bod yn delio ag amcanion myfyrwyr; a bod y Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn gwrthod bron pob un o'r apeliadau uwch. Gwelodd adolygiad allanol diweddar o raglenni graddau ymchwil fod gan y Brifysgol weithdrefnau swyddogol, cynhwysfawr, clir ar gyfer delio â chwynion oedd yn briodol ac yn foddhaol. Cytunodd y tîm adolygu gyda'r farn hon a gwelodd fod y gweithdrefnau ar gyfer cwynion myfyrwyr ac apeliadau academiaidd yn briodol ac yn effeithlon.

Sicrwydd ansawdd staff addysgu, penodi, gwerthuso a gwobrwyo

117 Gan Adran Adnoddau Dynol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol mae'r prif gyfrifoldeb dros weithdrefnau penodi a dyrchafu staff ac am fframweithiau polisi ar gyfer ymsefydlu, prawf a gwerthuso. Mae'r polisi yn y meysydd hyn yn cael ei gydlyn gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol sy'n adrodd yn ôl i'r Cyngor drwy'r Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau. Mae rhestr o'r sgiliau a'r nodweddion penodol ar gyfer pob swydd yn y fanyleb bersonol a'r disgrifiad swydd a'r rhain yw'r meini prawf a ddefnyddir wrth dynnu rhestr fer a chyfweld.

118 Y cyfnod prawf ar gyfer darlithwyr a thiworiaid proffesiynol yw tair blynedd. Pennaeth yr ysgol/y gyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol yn y pen draw am weithredu prawf o fewn yr ysgol/y gyfarwyddiaeth. Gellir dirprwyo rheoli'r broses i reolwr llinell/goruchwylwr y swyddog prawf pan fydd hynny'n briodol. Hefyd, gellir penodi mentor i staff ar brawf i roi cymorth annibynnol. Rhoddir cymorth pellach drwy'r Dystysgrif ôl-radd mewn Addysgu a Dysgu Prifysgol. Mae'r weithdrefn prawf yn disgwyl bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i roi cyngor ac arweiniad ar gynnydd ynghyd â chyfarfodydd adolygu ffurfiol yn ystod camau allweddol y cyfnod prawf.

119 Mae'r Brifysgol yn gweithredu system werthuso flynyddol sy'n cynnwys yr holl staff nad sydd ar brawf. Ei nod yw sicrhau bod amcanion yn cael eu datblygu i ganiatáu i staff adlewyrchu ar weithgareddau hyfforddi a datblygu a gynhelir ac i ganfod anghenion datblygiad a hyfforddiant presennol ac yn y dyfodol sy'n gyson gyda nodau ac amcanion y Brifysgol. Mae'r broses adolygu hon yn rhoi cyd-destun ffurfiol ar gyfer adborth ac yn penderfynu ar amcanion clir, perthnasol a mesuradwy ar gyfer yr unigolyn sy'n briodol i'r tymor byr, canolig a hir. Mae hefyd yn arwain at gytuno ar gynlluniau gweithredu clir.

120 Disgwylir i ysgolion gynnal adroddiadau deiliant gwerthusiadau ac i hysbysu'r Adran Adnoddau Dynol fod y broses wedi'i chyflawni. Ar ôl cwblhau'r gwerthusiadau, bydd pob ysgol/cyfarwyddiaeth weinyddol yn llunio crynodeb o gynllun hyfforddi a datblygu sy'n cael ei anfon at yr Adran Adnoddau Dynol. Cesglir y rhain i lunio cynllun blynyddol y Brifysgol sy'n crynhoi anghenion hyfforddi a datblygu'r sefydliad. Adeg yr adolygu roedd y polisi ar gyfer gwerthuso blynyddol yn cael ei adolygu. Mae'r fersiwn drafft a welwyd gan y tîm adolygu (drafft 7) yn rhoi arweiniad gweithdrefnol ychwanegol ac mae'n egluro nad yw'r cynllun gwerthuso wedi'i gysylltu i weithdrefnau sy'n penderfynu ar gyflog neu raddio. Mae gan y Brifysgol brosesau eraill ar gyfer hyn.

121 Mae'r gweithdrefnau o safbwynt cydnabod a gwobrwyo staff am eu cyfraniadau i ddysgu ac addysgu wedi'u mewnosod i'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar ddyrchafiad ar yr holl lefelau perthnasol. Disgwylir i ymgeiswyr ddangos cyfraniadau at ymchwil, dysgu ac addysgu ac i fwriad ehangach y Brifysgol a gwaith yr ysgol. Disgwylir iddyn nhw hefyd roi tystiolaeth o ragoriaeth mewn un maes a gallu ac effeithlonrwydd yn y ddau arall. Maen prawf y trothwy yw rhagoriaeth genedlaethol yn achos dyrchafu uwch ddarlithydd, rhagoriaeth ryngwladol bron yn achos darllenydd a rhagoriaeth ryngwladol i gael Cadair bersonol. Mae meini prawf ar gyfer cydnabyddiaeth a gwobrwyo'n gymwys yn achos staff academaidd sy'n ceisio dyrchafiad o Raddfa 7 i Raddfa 8 gyda phroffil addysgu ac ysgoloriaeth.

122 Wrth astudio dogfennau sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau penodi, gwerthuso a dyrchafu oddi wrth staff yn y llwybrau themâu, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod gweithdrefnau'r Brifysgol yn briodol ar gyfer sicrhau ansawdd darpariaeth academaidd yn y cyd-destun hwn.

Sicrwydd ansawdd addysgu: cefnogaeth a datblygiad staff

123 Mae cwblhau'n llwyddiannus Modiwl 1 (30 credyd) Tystysgrif ôl-radd y Brifysgol mewn Addysgu a Dysgu Prifysgol yn rhan o'r broses brawf ar gyfer darlithwyr a thiworiaid proffesiynol. Hefyd, disgwylir hyn gan staff prawf eraill sydd â rôl sylweddol wrth gefnogi dysgu ac addysgu pan oedd hwn wedi'i nodi fel anghenraid o'r rôl. Mae'n bosibl hepgor y gofyn hwn mewn unigolion a all ddangos tystiolaeth ddogfennol o ennill cymhwyster cymharol neu ei addasu ar gyfer unigolion a all ddangos profiad addysgu sylweddol. I ennill y Dystysgrif ôl-radd lawn mewn cymhwyster Addysgu a Dysgu Prifysgol (60 credyd), rhaid i staff gwblhau Modiwl 2. Mae hyn yn galluogi cyfranogwyr i ddewis agwedd o arfer addysgu ar gyfer astudiaeth drylwyr. Ym mis Tachwedd 2007, roedd yr Academi Addysg Uwch yn achredu'r Dystysgrif ôl-radd mewn Addysgu a Dysgu Prifysgol Modiwl 1 a'r Rhaglen lawn ar Safon Dau (Statws Cymrawd) yn erbyn y Fframwaith Cenedlaethol Safonau Proffesiynol (2006). Amlygwyd gwerth y

Dystysgrif ôl-radd hon gan staff mewn nifer o gyfarfodydd a daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod yr agwedd hon o hyfforddiant i staff newydd yn briodol ac yn cael ei gefnogi'n dda.

124 Mae amrediad cynhwysfawr o gyrsiau addysgu, dysgu ac asesu hefyd ar gael i'r holl aelodau staff ac ôl-raddedigion ymchwil drwy Raglen Datblygu Staff Prifysgol a gyhoeddir dwy waith y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o gyrsiau ymarferol a damcaniaethol. Mae'r rhain yn cynnwys amrediad eang o bynciau, gan gynnwys dysgu, addysgu ac asesu, datblygiad personol a chydaddoldeb ac amrywiaeth. Roedd yr ymagwedd systematig a fabwysiadwyd yng nghyd-destun cymorth i staff a datblygiad proffesiynol ar lefel prifysgol yn creu argraff dda ar y tîm adolygu. Lluniwyd nifer o weithdai hefyd yn benodol i gefnogi staff mewn meysydd a nodwyd fel rhai y dylid eu gwella, er enghraifft, dulliau ymarferol o ddarparu adborth myfyrwyr yn effeithiol ac effeithlon. Cydlynir gweithdai hyfforddi sgiliau ar gyfer goruchwylwyr myfyrwyr ymchwil a staff sy'n arholi gradd ymchwil am y tro cyntaf gan yr ysgolion i raddedigion.

125 Diwygiwyd y polisi Adolygiad Cyfoed o Ddysgu ac Addysgu yn 2006. Mae'n orfodol i'r holl staff academaidd, yn hyblyg ac ysgafn ei ymagwedd a hefyd yn benodol yn ei ofynion i'r ysgolion a'r staff unigol. Mae'r Fframwaith Polisi'n nodi nodau ac amcanion a lleiafswm y safonau arfer disgwylidig gyda phwyslais ar adlewyrchu, datblygu a gwella. Mae wedi profi'n hynod o werthfawr yng nghyd-destun y rhaglen Dystysgrif ôl-radd mewn Addysgu a Dysgu Prifysgol o safbwynt symbylu addysgu ar draws ffiniau ysgolion, prosiectau ymholi a grwpiau trafod.

126 Un o brif argymhellion yr archwiliad Parhad blaenorol oedd buddioldeb sicrhau hyfforddiant priodol i fyfyrwyr ymchwil cyn iddyn nhw ddechrau addysgu. Diwygiwyd Cod Ymarfer, adran 1 y Brifysgol sy'n cynnwys Cyfranogiad Myfyrwyr Ymchwil ôl-radd mewn Gweithgareddau Addysgu, yn 2003. Yn benodol, penaethiaid ysgolion sy'n gyfrifol am sicrhau bod myfyrwyr ymchwil ôl-radd yn derbyn, fel lleiafswm, yr hyn sy'n cyfateb i hyfforddiant undydd sy'n benodol i'w rolau cyn ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau addysgu. Yn ychwanegol at hyfforddiant cyffredinol, dylid rhoi arweiniad sy'n berthnasol yn benodol i'r modiwl/cwrs. Rhaid i holl fyfyrwyr athrawon gael mentor fydd yn arsylwi ar o leiaf ddau sesiwn addysgu. Cydlynir cyrsiau ar sgiliau addysgu, arddangos ac asesu yn awr gan ysgolion graddedigion y Brifysgol ac maen nhw'n rhan o Raglen Datblygu Sgiliau Myfyrwyr Ymchwil.

127 Mae cyfarfodydd gyda myfyrwyr ymchwil yn y llwybrau themau'n awgrymu efallai bod rhywfaint o amrywioldeb yn effeithlonrwydd y trefniadau a ddefnyddir gan wahanol ysgolion i sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu cyflawni'n brydlon. Yn gyffredinol, fodd bynnag, daeth y tîm adolygu i'r casgliad eu bod wedi delio â'r argymhelliad o'r archwiliad Parhad yn briodol.

Sicrwydd ansawdd yr addysgu a gyflenwir drwy ddulliau dosranedig ac o bell

128 Yn ei gyfarfod ar 25 Mehefin 2005, mabwysiadodd y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd y *Cod ymarfer, Adran 2: Darpariaeth gydlynol a dysgu hyblyg a dosranedig (gan gynnwys e-ddysgu)*. Yn 2005-06, roedd y Brifysgol yn ystyried ei ymagwedd tuag at ddysgu hyblyg a dosranedig, gan gydnabod y gallai effeithio ar bolisi'r Pwyllgor

Strategaeth ac Adnoddau ar Feini Prawf Buddsoddi'n Strategol ac ar bob un o'r strategaethau ar gyfer Asesu, Amgylchedd Dysgu a Dysgu ac Addysgu. Mae hyn wedi'i roi mewn cyd-destun gyda pholisi gorfwaol y Brifysgol yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu hyblyg a dosranedig pan:

- gellir dangos bod datblygiadau'n arwain at goliau strategol y Brifysgol
- fydd er budd datblygiad academaidd, a
- bod achos busnes cadarn dros wneud hyn (o safbwynt hyfywdra addysgol ac ariannol).

129 Mae effaith dysgu hyblyg a dosranedig ar y Strategaeth Dysgu ac Addysgu'n adlewyrchu amcan addysgu nad sy'n 'creu unrhyw rwystrau diangen i gyfranogi ac, ymhellach, mae'n gynhwysol ac yn gwbl hygyrch i'n holl fyfyrwyr' a hefyd o fewn ei hagenda amrywiaeth a chydraddoldeb sy'n hybu 'amrediad o ddulliau cyflenwi'.

130 Mae hyn wedi esgor ar fframwaith ar gyfer y nifer cyfyngedig o achlysuron hyd yn hyn pan fydd yr opsiwn am ddysgu hyblyg a dosranedig wedi'i ystyried, gan gydnabod bod gan Gaerdydd ymagwedd campws-ganolog yn bennaf at gyflenwi rhaglenni. Mae'r fframwaith yn gosod yr egwyddorion o safbwynt safonau a gwobrau academaidd, cyfleoedd dysgu a gweithdrefnau sicrwydd ansawdd. Mae hefyd yn nodi'r angen am sicrhau bod staff sy'n ymwneud â chyflenwi neu'n cefnogi rhaglen ddysgu hyblyg a dosranedig yn gwbl gymwys i'r rôl y byddan nhw'n ei chyflawni ac efallai y bydd angen hyfforddiant priodol i gefnogi'r aelodau staff hynny.

131 Mae'r fframwaith hefyd yn nodi'r angen am sicrhau bod pob myfyriwr yn derbyn gwybodaeth gymharol i fyfyrwyr campws-ganolog. Mae hefyd yn amlinellu bod yn rhaid i drefniadau cefnogi myfyrwyr fod yn gymharol ac y dylai myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni dysgu hyblyg a dosranedig gael eu gwerthuso cyn cofrestru ar y rhaglen ynglŷn â pha gymorth (gan gynnwys cymorth bugeiliol) sydd ar gael.

132 Nododd y tîm adolygu fod y rhaglen ddysgu hyblyg a dosranedig mewn dermatoleg wedi'i chyflenwi'n sylweddol a chynghorwyd hwy fod y symudiad o ddysgu hyblyg a dosranedig ar bapur i gyflenwi ar lein wedi'i ystyried yn unol â newid bychan i'r rhaglen cyn gweithredu Strategaeth Dysgu Hyblyg a Dosranedig 2006. Sicrhawyd y tîm eu bod wedi ystyried yn ofalus rheolaeth profiad myfyrwyr a chynnal cyfranogiad myfyrwyr yn y rhaglen a'u bod wedi dod i'r casgliad bod hyder y Brifysgol yn yr enghraifft hwn yn gadarn.

Adnoddau cefnogi dysgu

133 Dywedodd y ddogfen hunan-werthuso fod y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth yn darparu'r adeiledd llyfrgell a thechnoleg gwybodaeth ac yn cefnogi'r Amgylchedd Dysgu'n uniongyrchol mewn partneriaeth gyda chyfarwyddiaethau eraill. Cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o'r ddarpariaeth lyfrgell yn 2004-05 oedd yn esgor ar amrediad o welliannau. Nododd cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr fod cyfranogwyr grwpiau ffocws is raddedigion Cam 2 Prosiect Q yn canmol y cyfleusterau dysgu'n gyffredinol, yn benodol cyfleusterau'r llyfrgell, mynediad i gyfrifiaduron a chymorth technoleg gwybodaeth a'r defnydd o amgylchedd dysgu rhithwir er bod hyn yn ymddangos fel petai'n gwahaniaethu o un ysgol i'r llall yn dibynnu ar lefel cyfranogiad

staff yr ysgol yn yr amgylchedd dysgu rhithwir ar y pryd. Roedd cyfranogwyr blwyddyn derfynol yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2006 yn nodi bod adnoddau dysgu'r Brifysgol yn rhagorol.

134 Mae Strategaeth yr Amgylchedd Dysgu 2005-08 yn nodi bod tri phrif yrrwr yn llunio ymddangosiad amgylcheddau dysgu newydd fel a ganlyn:

- y gyrrwr addysgiadol: mae'n fwy myfyriwr-ganolog, cydweithiol a dysgu ar sail grŵp
- y gyrrwr profiad myfyrwyr: disgwyliadau 'brodorion digidol' a'r 'myfyriwr fel cwsmer'
- y gyrrwr gweithredol: rheolaeth effeithiol, effeithlon a chynaliadwy sefydliadau cynyddol gymhleth.

135 Mae sefyllfa'r Brifysgol yn glir ynglŷn â'r y mae'n bwriadu ei gyflawni ar gyfer ei chanolfan adnoddau dysgu ac mae'n nodi bod 'y Strategaeth Amgylchedd Dysgu'n cynrychioli cam pwysig wrth symud tuag at gynllunio a chyflenwi amgylchedd dysgu ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n cymharu bron â'r disgrifiad: Safon Byd-eang'. Wrth ymdrechu i gyflawni'r safon hyn, mae'n cydnabod bod angen sefydlu proses gynllunio strategol integredig ar gyfer pob agwedd o fuddsoddiad yn yr amgylchedd dysgu ar gyfer y Strategaeth Dysgu ac Addysgu. Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu'n nodi bod yr integreiddio'n digwydd drwy 'ymagwedd partneriaeth wedi'i gydlynu gan y Gofrestrfa a'r Gyfarwyddiaeth Cymorth i Fyfyrwyr, rhwng y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth a'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau Ariannol Ffisegol, Ysgolion academaidd a budd-ddeiliaid eraill yng Nghaerdydd'.

136 Byddai cynlluniau strategol y ddwy ysgol sy'n cynnwys llwybrau thematig yn awgrymu bod y Brifysgol wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni'r agenda hon ond bod nifer o faterion yn dal heb eu datrys. Thema sy'n amlygu ei hun yw diffyg ac ansawdd gofod ffisegol. Mae'r cynllun strategol ar gyfer un o'r ysgolion yn nodi "'mewn dulliau hynod real ac union, bydd yr amgylchedd dysgu presennol yn cyfyngu'n ddifrifol ein cynlluniau i ddatblygu'r portffolio newydd o gyrsiau a restrir uchod". Daw'r dyfyniad hwn o'n Cynllun Strategol 2003. Rhaid ei ail adrodd yn y fersiwn 2006 hwn ond yn wahanol. Er waethaf popeth a wnaethom i wneud y defnydd mwyaf o'r gofod sydd ar gael ers 2003, rydym mewn gwirionedd wedi cyrraedd y pwynt lle mae ein cynlluniau'n awr yn cael eu cyfyngu'n ddifrifol gan ofod sydd, yn syml iawn wedi dod i ben'.

137 Mae cynllun strategol ar gyfer ysgol arall yn codi pryderon cyffelyb gan nodi 'mae cyfyngiadau gofod yn her sylweddol i'r Ysgol os bydd y cynllun hwn yn cael ei fabwysiadu gan y Brifysgol ac mae'n debygol o achosi bygythiad i gyflawni ein nodau strategol. Ein rhagamcan yw y bydd yr estyniad arfaethedig ... yn golygu y bydd yr Ysgol yn cael eu tan ddyrannu'n gynyddol dros y cyfnod hwn o gynllunio gan o leiaf 20%'.

138 Wrth ystyried y materion hyn a'r rhai o ysgolion eraill, mae Dadansoddiad Crynodol 2007 o Gynlluniau Strategol Ysgolion yn adlewyrchu sut mae'r Brifysgol yn cydnabod y sefyllfa hon ac yn sicrhau bod ei buddsoddiad strategol yn adlewyrchu'r amgylchiadau hyn.

139 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod yr ymagwedd integredig at ddarparu adnoddau cefnogi dysgu'n effeithlon wrth ganfod a chynllunio ar gyfer cyflenwi ei hamrediad llawn o raglenni astudio'n ddiogel tra'n cydnabod bod cyfyngiadau gofod ffisegol yn

dal i fod mewn rhai meysydd academiaidd. Mae arddangosiad o allu'r Brifysgol i flaenoriaethu a datblygu'n effeithlon mewn dull integredig a strategol yn tanategu hyder y tîm.

Arweiniad, cefnogaeth a goruchwyliaeth academiaidd

140 Yr Adran Polisi Academiaidd y Gofrestrfa a Chyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr yw'r brif asiantaeth ar gyfer cydlynu cymorth i ddysgwyr, darparu mewnbyn strategol ac ymarferol i weithredu Strategaethau Asesu, Amgylchedd Dysgu a Dysgu ac Addysgu. Gan yr ysgolion mae'r prif gyfrifoldeb dros gyflenwi arweiniad, cymorth a goruchwyliaeth academiaidd ar y cyd gyda'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth, y Ganolfan i Raddedigion ac ysgolion graddedigion a'r Gwasanaeth Gyrfau. Mae'r Ganolfan Iaith Saesneg yn darparu cymorth iaith cyn ac mewn sesiwn ar gyfer myfirwyr rhyngwladol. Mae'r Ganolfan Cymorth Mathemateg a'r Ganolfan Ysgrifennu'n darparu cymorth arbenigol a chefnogaeth i fyfirwyr mewn Ysgolion academiaidd perthynol. Mae Adran Adnoddau Dynol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol yn darparu hyfforddiant i staff i gyflenwi cymorth.

141 Yn ychwanegol at gyfleoedd i ddatblygu sgiliau o fewn y cwricwla, mae cyrsiau a gweithdai rhydd-sefyll gyda chefnogaeth i fyfirwyr gymryd rhan mewn cynlluniau datblygiad personol. Mabwysiadwyd fframwaith polisi ledled y Brifysgol ar gyfer cynlluniau datblygiad proffesiynol ond maen nhw'n orfodol dim ond pan fydd angen hyn ar gyfer hyfforddiant proffesiynol. Mewn ysgolion eraill, gwirfoddol yw i fyfirwyr gymryd rhan mewn cynlluniau datblygiad personol, yn aml yn cael eu cynnig drwy'r system diwtorial personol. Mae pob myfyriwr mewn rhaglen a addysgir yn cael tiwtor personol a disgrifir ei rôl yn Rheoliad y Senedd ar gyfer Tiwtoriaid Personol ac mewn Fframwaith Polisi ar gyfer Darparu Cymorth Tiwtor Personol i Fyfirwyr. Mae'r dogfennau hyn ynghyd â ffynonellau cyngor perthnasol eraill yn y Llawlyfr Tiwtoriaid Personol sy'n cael ei ddiweddarau a'i gyhoeddi'n flynyddol.

142 Mae barn myfirwyr am y system tiwtor personol yn amrywio. Mae cyflwyniad ysgrifenedig y myfirwyr yn nodi bod y system tiwtor personol wedi cael adroddiadau cymysg, gan awgrymu bod ansawdd y cymorth yn amrywio fesul unigolyn. Hefyd, mae adran prif ddarganfyddiadau'r adroddiad ar y grwpiau ffocws is raddedigion sy'n cyfranogi yng Ngham 2 Prosiect Q ac a luniwyd ym mis Mai 2007 yn nodi nad yw tiwtoriaid personol yn cael eu gweld fel prif nodwedd. Defnyddir strwythurau anffurfiol yn aml ar gyfer arweiniad a chymorth. Gwelir bod y rhain yn rhoi gwell gwerth. Fodd bynnag, yr adborth cyffredinol o'r arolygon hyn a hefyd y farn a fynegwyd gan fyfirwyr yn y ddau lwybr oedd bod staff yn garedig, croesawus, brwdfrydig, cefnogol a bob amser ar gael.

143 Un mater a godwyd yng nghyflwyniad ysgrifenedig y myfirwyr a hefyd mewn cyfarfodydd myfirwyr oedd yr amrywioldeb a brofwyd o safbwynt ansawdd a chyflymder adborth academiaidd ar waith a gyflwynwyd. Tynnir sylw hefyd yng nghyflwyniad ysgrifenedig y myfirwyr at y sgorau is na'r cyfartaledd a gofnodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Myfirwyr 2006 o safbwynt Asesu ac Adborth a hefyd Datblygiad Personol. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'r amrywioldeb hwn a ystyriwyd fel rhan o Brosiect Q ac mae'n cymryd camau rhyngweithiol i ddelio â diffygion yn y cyd-destun hwn drwy ei hagenda gwella. Yn awr, mae Rheoliadau Asesiad y Senedd yn disgwyl i

ysgolion gyflwyno'r gweithdrefnau a ddefnyddir i sicrhau dibynadwyedd a chysondeb marcio ac adborth. Fodd bynnag, roedd y myfyrwyr a welwyd yn ystod yr adolygiad yn sôn nad oedd y trefniadau ar gyfer adborth, sef y dylai hyn gael ei dderbyn fel arfer o fewn pedair wythnos i gyflwyno'r asesiad, eto'n cael eu gweithredu'n gyffredinol mewn ysgolion.

144 O safbwynt myfyrwyr ymchwil ôl-radd, y Pwyllgor Datblygu Graddedigion yw'r corff cydlynu ar gyfer pob mater yn ymwneud â gwella astudiaeth graddedigion yn y Brifysgol ac sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu strategaethau i gefnogi sicrhau a gwella profiad myfyrwyr ôl-radd. Ymdrinnir ag anghenion myfyrwyr ymchwil drwy'r Rhaglen Datblygu Sgiliau Myfyrwyr Ymchwil a luniwyd i roi cyfle i fyfyrwyr ymchwil ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gwblhau eu gradd ymchwil yn brydlon ac i wella eu cyflogadwyedd.

145 Yr Adolygiad Blynyddol o Weithgaredd ôl-raddedigion sy'n monitro pob agwedd o astudiaeth ôl-radd ac mae'n cyfannu'r Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol ar gyfer is raddedigion a chysiau ôl-radd a addysgir. Disgwylir i bob ysgol gael Cyfarwyddwr Astudiaethau ôl-radd enwebedig gyda phrif gyfrifoldebau am sicrhau bod gofynion Cod Ymarfer y Brifysgol ar Raddfeydd Ymchwil yn cael eu cyflawni. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i bob myfyriwr gael dau oruchwyliwr gyda chymorth cynghorwyr eraill a all fod yn ymwneud yn y prosesau monitro cynnydd sy'n gymwys ar draws y sefydliad. Mae'r arolwg a gynhaliwyd ar gyfer cyflwyniad ysgrifenedig myfyrwyr yn sôn yn ffafriol am y trefniadau ar gyfer goruchwylio. Roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr ôl-radd yn dweud eu bod yn hapus gyda'u profiad – barn a gadarnhawyd gan fyfyrwyr ôl-radd a welwyd yn y ddau lwybr ysgolion.

Cefnogaeth a chyfarwyddyd personol

146 Mae Gwasanaeth Cwnsela'r Brifysgol wedi'i gydleoli a'i gydreoli gyda Gwasanaeth Cwnsela'r Staff. Mae'n darparu canolfannau cefnogi myfyrwyr un alwad ar bob un o brif gampysau'r Brifysgol ar gyfer materion personol, ariannol ac academiaidd eang gan gynnig cymorth, cefnogaeth a chynghor cyfrinachol. Mae'r canolfannau hyn yn darparu deunyddiau ar lein ac ysgrifenedig a gwaith grŵp rhyngweithiol mewn lleoliadau myfyrwyr ar gyfer y rhai sy'n methu/sy'n amharod i ddod i'r ganolfan a hefyd yn darparu cefnogaeth anabled a dyslecsia. Hefyd, mae ysgolion wedi nodi cysylltiadau anabled sy'n cysylltu gyda'r ganolfan cymorth i fyfyrwyr. Mae'r holl wasanaethau ar gael i fyfyrwyr, ymgeiswyr a rhieni ac mae cysylltiadau cadarn gydag Undeb y Myfyrwyr.

147 O sesiwn 2007-08, mae'r Gwasanaeth Cwnsela wedi cyflwyno model newydd gyda newid pwyslais i therapi sy'n canolbwyntio ar ateb byr yn y lle cyntaf a system gyflenwi gofal wedi'i reoli. Gall y Gwasanaeth ddarparu cwnsler os bydd angen ac mae cwnsler gyda diddordeb arbennig mewn myfyrwyr peirianeg fiofeddygol. Gall hefyd ddarparu cwnsela cyfrwng Cymraeg. O safbwynt monitro, mae effeithlonrwydd pob gwasanaeth cefnogi'n cael eu hunan-werthuso gan y gwasanaeth hwnnw yn hytrach na thrwy weithdrefn fonitro allanol. Fodd bynnag, mae datblygiad parhaus i ganfod y dull mwyaf priodol o fesur cynnyrch fel y defnydd o 'CORE' (Gwerthusiad Arferol o Ddeilliannau Clinigol) yn y gwasanaethau cwnsela a chynghori.

148 Mae cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr yn ei gwneud hi'n amlwg bod cymorth personol yn gweithio'n dda fel arfer ond nid bob amser drwy'r system tiwtor personol. Yn arolwg mwyaf diweddar Undeb y Myfyrwyr a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2007, roedd ymatebwyr yn mynegi boddhad cyffredinol gyda'r cymorth lles gan y Brifysgol a'r Undeb gyda chanmoliaeth arbennig i'r Uned Datblygiad Myfyrwyr a Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd. Mae myfyrwyr tramor, fodd bynnag, yn ei chael hi'n anos na myfyrwyr cartref i addasu ac angen cymorth ychwanegol yn fuan ar ôl cyrraedd. Mae'r Brifysgol yn cymryd camau rhyngweithiol i ddelio â'r mater hwn a nododd y myfyrwyr yr Adran Ryngwladol a'r Ganolfan i Raddedigion fel rhai oedd yn cynnig cymorth o ansawdd da. Awgrymwyd, fodd bynnag, mewn cyfarfod gyda chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr y gallai rhai ysgolion chwarae rôl fwy rhagweithiol wrth gynnig cymorth lles i fyfyrwyr ymchwil ôl-radd a bod rhai pryderon nad oedd y Ganolfan i Fyfyrwyr yn cyflawni ei photensial llawn yn hyn o beth.

149 Er bod y canolfannau cefnogi myfyrwyr yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, mynegwyd rhai pryderon bod ansawdd y cymorth a'r wybodaeth yng Nghampws Parc y Waun yn llai na'r hyn a gynigir yng Nghampws Waun Ddyfal. Ar hyn o bryd, mae Undeb y Myfyrwyr yn ceisio gwella hyn a threfnwyd fora i gynnwys myfyrwyr Campws y Waun wrth ddatblygu gwell gwasanaeth. Cadarnhawyd mewn cyfarfod gydag uwch staff bod y rhaglen buddsoddiad cyfalaf yn y campws hwn yn barhaus a bod gofynion lles myfyrwyr Parc y Waun yn ystyriaeth bwysig. Mae'r tîm adolygu'n annog y Brifysgol i barhau i weithio gydag Undeb y Myfyrwyr i geisio atebion priodol i'r materion a godwyd.

Darpariaeth gydweithredol

150 Er mai ychydig o ddarpariaeth gydweithiol oedd gan Brifysgol Cymru, Caerdydd, roedd uno gyda Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru wedi dod â nifer o drefniadau presennol i'r sefydliad newydd. Yn un o'i gyfarfodydd gyda staff, hysbyswyd y tîm adolygu nad yw datblygu darpariaeth gydweithiol newydd yn flaenoriaeth ar hyn o bryd oherwydd nad yw'r Brifysgol angen yr incwm y byddai hyn yn ei greu ac nad yw'n barod i dderbyn y lefel o risg fyddai'n ei achosi. Mewn cyfarfodydd eraill, dysgodd y tîm fod nifer o bartneriaethau newydd yn cael eu hystyried a bod staff yn disgwyl i'r rhain esgor ar fuddion academaidd ynghyd â chynnig cyfleoedd i greu incwm a recriwtio myfyrwyr rhyngwladol ychwanegol. Cadarnhawyd yn ddiweddarach bod y Brifysgol yn barod i ystyried cynigion newydd ar gyfer darpariaethau cydweithiol a'i bod yn y broses o ddatblygu gweithdrefnau i'w galluogi i reoli'r risgiau cysylltiol.

151 Adeg yr adolygiad presennol, roedd y Brifysgol yn llunio Strategaeth Ryngwladol. Er bod y ddogfen waith yn arwydd o fwriad i gydweithio gyda 'phartneriaid academaidd, busnes ac eraill', nid oedd manylion y strategaeth wedi'u datblygu'n ddigonol i alluogi'r tîm adolygu i benderfynu a oedd y Brifysgol yn bwriadu sefydlu'r mathau o bartneriaethau a fyddai o fewn cwmpas y *Cod ymarfer, Adran 2: Darpariaeth gydweithiol a dysgu hyblyg a dosranedig (gan gynnwys e-ddysgu)*. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o ddogfennau eraill bod y Brifysgol yn paratoi ar gyfer ehangu'r maes gweithgaredd hwn.

152 Ym mis Mehefin 2006, cytunodd y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd i sefydlu Is Grŵp Rhaglenni Cydweithiol (CPSG) i ystyried cynigion inter alia ar gyfer darpariaeth gydweithiol newydd ac i gynghori'r Pwyllgor ar unrhyw newidiadau arfaethedig i Fframwaith Darpariaeth Gydweithiol y Brifysgol. Roedd cofnodion cyfarfod cyntaf

CPSG yn cofnodi cymeradwyaeth a chynigion ar gyfer sawl trefniant cydweithiol newydd yn dilyn cyhoeddi'r Fframwaith ym mis Hydref 2006. Tra bod y Fframwaith yn cydnabod nad yw 'darpariaeth gydweithiol ar hyn o bryd ... yn gôl strategol', mae'r Brifysgol yn 'ymwybodol o'r buddion a'r gwelliannau posibl a allai ddeillio o gydweithio' ac yn 'cydnabod y risgiau posibl i enw da a safonau academiaidd a allai ddeillio o gyfranogi mewn darpariaeth heb gyfyngiadau'.

153 Yn ychwanegol at y ddarpariaeth gydweithiol roedd y Brifysgol yn etifeddu o UWCM, derbyniodd y tîm adolygu restr o 13 partneriaeth a ddisgrifiwyd yn amrywiol fel 'dau a dau', 'pedwar ac un', 'cyfnewid myfyrwyr' a rhaglenni 'ar y cyd'. Daeth y tîm i'r casgliad, er bod y cytundebau partneriaethau'n dal yn weithredol, o'r rhain, tri threfniant cyfnewid myfyrwyr sydd lle mae myfyrwyr presennol wedi cofrestru. Cadarnhaodd staff fod y Brifysgol yn cadw'r cyfrifoldeb dros ystyried ceisiadau derbyn myfyrwyr unigol yn y 13 achos ar ôl iddyn nhw gwblhau eu rhaglenni astudio yn y sefydliad partner.

154 Hefyd, mae'r Brifysgol yn cynnal trefniant gwobr ddeuol gyda Institut d'Etudes Politiques (Bordeaux). Sefydlwyd hwn yn 2002 gan gyn-ddyddio cymeradwyo'r Fframwaith Darpariaeth Gydweithiol. Gwelodd y tîm adolygu fod y Brifysgol wedi dilysu'r rhaglen ar ôl ystyried yn ofalus amrediad o faterion academiaidd a rheoliadol. Er nad oedd yr adroddiad dilysu'n delio â materion yn ymwneud â rheoli partneriaeth, roedd yn amlwg o ddogfennau eraill a gyflwynwyd i'r tîm bod staff y Brifysgol yn ymweld â'r partner o leiaf ddwy waith y flwyddyn a'u bod yn delio â materion yn ymwneud â'r rhaglen yn yr Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol sy'n cael ei llunio gan fwrdd astudiaeth berthnasol y Brifysgol.

155 Mae sicrwydd ansawdd darpariaeth gydweithiol 'yn ddibynnol ar o leiaf yr un prosesau â'r ddarpariaeth a gyflenwir o fewn Caerdydd'. Mae hyn yn cynnwys, pan fydd hynny'n briodol, penodi'r un arholwyr allanol i oruchwyllo'r rhaglenni a gyflenwir o fewn Caerdydd a'r rhai a gyflenwir ar sail cydweithiol. Hefyd, mae rhaglenni cydweithiol yn ddibynnol ar weithdrefnau safonau'r Brifysgol ar gyfer yr Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol a disgwylir i fyrddau astudio a byrddau ysgolion gyfeirio'n benodol at unrhyw ddarpariaeth gydweithiol wrth gwblhau eu pro fforma adolygu blynyddol.

156 Yr unig drefniant penodol a wneir ar gyfer sicrwydd ansawdd darpariaeth gydweithiol yw'r disgwyl bod yn rhaid cael cymeradwyaeth ar y dechrau i bartneriaeth arfaethedig a strwythur a rhesymeg y ddarpariaeth oddi wrth yr Is Grŵp Rhaglenni Cydweithiol Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd. Fodd bynnag, fel rhan o ddatblygu ei threfniadau ar hyn o bryd, rhoddwyd ystyriaeth ddiweddar i fonitro rhaglenni cydweithiol. Mae'n bosibl y bydd y Brifysgol yn dymuno ystyried goblygiadau'r fenter hon a'i gofynion arbennig ar gyfer cymeradwyo ar y dechrau yng nghyd-destun ei strategaeth ansawdd ac yn arbennig egwyddorion cymesuredd ac addasu gweithdrefnau sicrwydd ansawdd er mwyn 'gweddu i anghenion penodol y meysydd sy'n cael eu hadolygu'.

157 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod graddfa'r gweithgaredd hwn yn debygol o gynyddu er bod darpariaeth gydweithiol bresennol y Brifysgol yn gyfyngedig. O gyfarfodydd gyda staff a chraffu ar ddogfennau, daeth y tîm i'r casgliad bod diffyg eglurder amlwg yn y modd y mae'r Brifysgol yn diffinio gwahanol fathau o ddarpariaeth gydweithiol a bod rhywfaint o ansicrwydd am y gwahaniaeth rhwng y trefniadau hynny sydd o fewn cwmpas y *Cod ymarfer, Adran 2*, a'r rhai nad sydd (gweler paragraff 153). Hefyd, roedd y tîm yn ystyried y gallai'r graddau lle'r oedd cyfrifoldebau rheoli ansawdd

cyffredinol yn cael eu dirprwyo i ysgolion (gweler paragraff 22) a threfniadau'r Brifysgol ar gyfer monitro rhaglenni cydweithiol yn flynyddol, amharu ar welededd a goruchwyliaeth gweithgaredd ar lefel ysgol ac felly rwystru'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd wrth gyflawni ei ymrwymadau sicrhau ansawdd a safonau pob darpariaeth. Fel cydnabyddiaeth o'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan yr Is Grŵp Rhaglenni Cydweithiol, argymhellir bod y Brifysgol yn ystyried dymunoldeb adolygu ei gweithdrefnau a'i pholisïau i sicrhau bod y risgiau arbennig sy'n gysylltiedig â'r maes gweithgaredd hwn yn cael eu canfod a'u rheoli'n briodol.

Adran 3: Ymchwiliadau'r adolygiad – gwybodaeth gyhoeddedig

Profiad myfyrwyr o wybodaeth gyhoeddedig ac arall

158 Adolygwyd yn arbennig gywirdeb y wybodaeth a gyhoeddwyd gan y Brifysgol o safbwynt prospectysau, disgrifiadau rhaglenni a hysbysebion, yn electronig ac ar bapur, yng nghyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr drwy gyfres o grwpiau ffocws o fyfyrwyr isradd ail flwyddyn a myfyrwyr ôl-radd. Mae hyn yn helaethu'r wybodaeth sydd ar gael oddi wrth Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, yr Arolwg Boddhad Myfyrwyr ar lein a deilliannau Cam 1 Prosiect Q. Daeth cyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr i'r casgliad bod y wybodaeth a gyhoeddir gan y Brifysgol a'i hanfon allan i fyfyrwyr isradd ac ôl-radd cyn cofrestru'n gymharol yn gyffredinol, neu'n llawer gwell na'r rhai a dderbyniwyd oddi wrth brifysgolion eraill lle'r oedden nhw wedi gwneud cais.

159 Gwelwyd hefyd bod y wybodaeth a dderbyniwyd ar ddyddiau Agored/Ymweld yn arbennig o dda o gymharu â digwyddiadau tebyg mewn mannau eraill. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr i arolwg Prosiect Q 2006 yn gweld nifer o feysydd lle gellid gwella gwybodaeth gyhoeddedig a dderbyniwyd adeg derbyn. Arweiniodd y darganfyddiadau hyn at gynllun gweithredu ar gyfer cofrestru yn 2007. Roedd yn cynnwys system gofrestru ar lein ar lefel brifysgol yn hytrach nag ar lefel ysgol. Cadarnhaodd profiadau'r myfyrwyr ddau lwybr y darganfyddiadau hyn.

160 Un maes a nodwyd gan y myfyrwyr a gyfrannodd at y cyflwyniad ysgrifenedig fel maes pryder oedd y llenyddiaeth a gafwyd gan yr adran llety ac arlwyo. Nodwyd bod hon yn rhy amwys ac yn gamarweiniol ar brydiau. Mae eu harolwg hefyd yn nodi ei bod yn ymddangos bod barn gyffredinol nad oedd y wybodaeth ar gyfer myfyrwyr ar Gampws y Waun neu ar leoliad gwaith mewn mannau eraill mor dda ag yr oedd ar y prif gampws.

161 Roedd y cyfarfodydd gyda'r myfyrwyr yn gyffredinol yn cadarnhau'r persbectif oedd yn deillio o gyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr a Phrosiect Q ac roedd yn rhoi cyfle i'r tîm adolygu samplu prif nodweddion profiad myfyrwyr yn y cyd-destun hwn yn bersonol. Er bod boddhad cyffredinol o safbwynt cyhoeddi meini prawf asesu mewn llawlyfrau ysgolion, awgrymodd y myfyrwyr bod lle i wella eu mynegiant, yn arbennig yng nghyd-destun rhoi adborth ar waith a gyflwynwyd. Roedden nhw hefyd yn gallu cadarnhau bod y wybodaeth am gwynion ac apeliadau ar gael a bod y gweithdrefnau i'w dilyn yn y cyd-destun hwn fel arfer yn gweithio'n dda. Daeth y tîm i'r casgliad bod y trefniadau ar gyfer sicrhau profiad myfyrwyr yn y cyd-destun hwn yn briodol ac, o ystyried y materion a nodwyd ym mharagraff 159 ymhellach, yn ddigon sicr.

Dibynadwyedd, cywirdeb a chyflawnrwydd gwybodaeth gyhoeddedig

162 Mae'r mynegiant yn y ddogfen hunan-werthuso am bolisiau a gweithdrefnau a ddefnyddir gan y Brifysgol i sicrhau safon a chywirdeb gwybodaeth gyhoeddedig, yn tynnu sylw arbennig at gyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth Datblygiad Strategol (Adran Cysylltiadau Cyhoeddus), Cyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr a'r ysgolion i sicrhau'r agwedd hon o ddarpariaeth. Sicrheir hyn, yn eu tro, gan adolygiad cyfoed mewnol ac allanol, arholwyr allanol, gwiriadau dilysu gan archwilwyr y Brifysgol a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ac fel prif elfen Adolygiad Cynnydd Ansawdd.

163 Mae'r Sefydliad yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth gwybodaeth gyfoes, gywir a dibynadwy i fudd-ddeiliaid a'r angen am sicrhau ei bod yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd. Ceir adborth yn gyson drwy nifer o ddulliau, yn bennaf holiaduron electronig, cardiau ymateb, grwpiau ffocws, sylwadau/awgrymiadau personol ar gyfer gwella a Phrosiect Q. Hefyd, ceir enghreifftiau defnyddiol am achosion penodol o adborth a chymau cywiro a/neu wella. Mae adroddiadau arholwyr allanol hefyd yn rhoi elfen sicrwydd bwysig yn y cyd-destun hwn.

164 Ar ôl ystyried yr adborth, cynhelir cylch o ymgynghori gydag arbenigwyr yn y Brifysgol (ac yn allanol os bydd yn briodol) i sicrhau bod gwybodaeth yn gyfoes ac yn gywir. Yn fewnol, mae'r arbenigwyr hyn yn cynnwys tiwtoriaid derbyniadau l ysgolion, staff preswyl a Chyfarwyddiaeth y Gofrestrfa a Chymorth i Fyfirwyr. Yn allanol, mae'r arbenigwyr yn cynnwys staff UCAS, y Cyngor Prydeinig, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Addysg a Sgiliau.

165 Ar ôl ystyried barn myfirwyr fel y'i mynegwyd yng nghyflwyniad ysgrifenedig y myfirwyr ac mewn cyfarfodydd, daeth y tîm adolygu i'r casgliad, o'u harchwiliad eu hunain o wybodaeth gyhoeddedig, bod y trefniadau'n gweithio'n dda'n gyffredinol. Mae datganoli cyfrifoldeb dros wirio cywirdeb gwybodaeth ysgolion i'r ysgolion eu hunain, yn gosod rhywfaint o hualau ar effeithlonrwydd trefniadau i sicrhau trosolwg sefydliadol, er bod disgwyl i ysgolion gysylltu â'r Gyfarwyddiaeth Datblygiad Strategol wrth gyhoeddi eu pamffledi a'u gwefannau eu hunain ar gyfer darpar fyfirwyr.

Casgliadau

Effeithlonrwydd gweithdrefnau sefydliadol i sicrhau ansawdd rhaglenni

166 Prif nodweddion gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni yw Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol, Adolygiad Cynnydd Ansawdd ac Adolygu ac Ail-ddilysu Cyfnodol. Ystyriodd y tîm adolygu fod y gweithdrefnau diffiniedig ar gyfer y prosesau adolygu hyn yn gadarn ac yn ffafriol i sicrhau safonau gwobrau'r Brifysgol.

167 Mae cymeradwyo rhaglen wedi'i gysylltu'n agos gyda chynllunio strategol ysgolion ac mae datblygiadau academiaidd yn digwydd ochr yn ochr gyda chymorth gwasanaethau canolog fel cyhoeddusrwydd, ystadau ayyb. Mynegodd y Brifysgol hyder yn yr ymagwedd integredig hwn ac roedd y tîm adolygu'n rhannu'r hyder hwn.

168 Nid oedd nifer o'r ysgolion wedi cwblhau eu Hadolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol o fewn yr amserlenni a nodwyd. Roedd hyn yn achosi oedi posibl wrth ymateb i unrhyw faterion sy'n codi. Roedd yr adborth a gyflwynwyd i ysgolion drwy'r Is-bwyllgor Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol ar y broses Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol yn cynnwys gwybodaeth benodol a generig gan gynnwys adran sylweddol ar arfer da a welwyd. Mae gan ysgolion weithdrefnau i ystyried yr adborth hwn ac i ganfod pa feysydd arfer da y gellir eu mabwysiadu ganddynt ac felly sicrhau dosbarthiad effeithlon.

169 Mae cylch pum mlynedd ar gyfer Adolygu ac Ail-ddilysu Cyfnodol ac Adolygiad Cynnydd Ansawdd yn gweithredu i bob pwrpas ar gylch saith blynedd ac weithiau hwy. Roedd hyn yn achos pryder i'r tîm adolygu yn achos Adolygu Cynnydd Ansawdd. Ond mae'n bosibl bod y Brifysgol yn llai sicr nag sy'n ddymunol bod ei holl brosesau'n gwbl weithredol. Gall achosi'r posibilrwydd o fethu â chanfod materion am gyfnodau maith. Felly, mae'r tîm yn cynghori'r sefydliad i sicrhau bod cychoedd adolygu ar gyfer Adolygu ac Ail-ddilysu Cyfnodol ac Adolygiad Cynnydd Ansawdd yn digwydd o fewn amserlenni a nodir yng ngweithdrefnau'r Brifysgol.

170 Mae myfyrwyr yn cyfranogi'n helaeth mewn nifer o bwyllgorau'r Brifysgol. Mae myfyrwyr hefyd yn rhoi adborth ar lefel modiwl a rhaglen ac felly'n hysbysu'r broses Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol. Ar lefel sefydliad a thrwy'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, cynhelir ymarfer dadansoddi ac adrodd yn ôl helaeth ar y cyd gydag Undeb y Myfyrwyr (Prosiect Q). Roedd y Brifysgol yn hyderus bod yr ymagwedd hwn yn sicrhau amrediad eang o fewnbwn myfyrwyr ac, ar sail y dystiolaeth a welwyd, roedd y tîm adolygu'n rhannu'r hyder hwn.

171 Mae'r Brifysgol yn ymwneud ag amrediad eang o gyrff proffesiynol a statudol i gyfannu ei gweithdrefnau sicrwydd ansawdd. Mae gan rai ysgolion fyrddau cynghori diwydiannol ac, yn arbennig yn achos ysgolion ar Gampws y Waun, llawer o fewnbwn gan gyflogwyr.

172 I raddau helaeth, mae poblogaeth myfyrwyr y Brifysgol ar sail campws, ond mae'r Brifysgol yn ceisio peidio â chyfyngu ei gweithgareddau ac yn cydnabod efallai y bydd yn dechrau trefniadau cydweithiol wrth anelu at fod yn sefydliad o safon byd-eang. Mae ganddi gyfres fanwl o weithdrefnau rheoli gweithgareddau dysgu cydweithiol a

hyblyg a dosranedig ond mae'r ddau ar raddfa isel. Roedd trefniadau presennol ar gael i raddau helaeth cyn mabwysiadu'r gweithdrefnau presennol felly ni ellir gweld yn llawn i ba raddau y maen nhw'n gweithredu'n llwyddiannus. Oherwydd hyn, mae'r tîm adolygu'n ystyried y byddai'n ddymunol i'r Brifysgol adolygu'r polisiâu a'r gweithdrefnau ar gyfer darpariaeth gydweithiol i sicrhau bod y risgiau arbennig sy'n gysylltiol â'r maes gweithgaredd hwn yn cael eu canfod a'u rheoli'n briodol.

Effeithlonrwydd gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer sicrhau safon gwobrau

173 Mae'r Brifysgol yn gweithio'n agos gyda'r Adeiledd Academaidd a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* wrth osod safonau eu graddau. Mae'r safonau a ddisgwylir gan fyfyrwyr i'w gweld yn y manylebau rhaglenni a'r disgrifiadau modiwlau a ddatblygwyd ar gyfer pob gradd a addysgir ac, yn achos graddau ymchwil, drwy'r Meini Prawf Gwobrau o fewn Rheoliadau'r Senedd. Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi datblygu a mabwysiadu Strategaeth Asesu newydd sy'n anelu at hyrwyddo dilysrwydd, dibynadwyedd ac agoredrwydd yn y broses asesu. Bwriad effaith y strategaeth yw gwella mesur cyrhaeddiad myfyrwyr a hefyd gwella mynegi a chyfathrebu safonau i staff a myfyrwyr. Mae gan ysgolion gyfrifoldebau sylweddol dros safonau gwobrau yn eu meysydd disgyblaeth arbennig a'r gallu i ddatblygu polisiâu a chonfensiynau o fewn fframwaith rheoliadol y Brifysgol. Effaith pellach y Strategaeth Asesu a fwriedir yw cynyddu cysondeb asesu ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, nododd y tîm adolygu fod diffyg adrodd yn ôl ffurfiol i'r Brifysgol o brif bwyllgorau lefel-ysgol sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â safonau academaidd ac roedd yn ystyried y byddai'n ddymunol i'r Brifysgol ystyried yr angen am atebolrwydd ffurfiol cyrff o'r fath i'r Senedd.

174 Mae arholwyr allanol yn chwarae rôl ganolog wrth sicrhau safonau gwobrau'r Brifysgol ar raddau a addysgir a rhai ymchwil. Llunnir y rheoliadau ar gyfer penodi arholwyr allanol i sicrhau bod y rhai a benodir yn annibynnol ac wedi cymhwyso'n addas ac yn brofiadol. Mae penodiadau'n cael eu monitro i sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi.

175 Gofynnir am farn arholwyr allanol ar safonau asesiadau, yn arbennig arholiadau ac ar brosesau a safonau marcio. Mae arholwyr allanol yn cymryd rhan yn y byrddau sy'n cytuno ar farciau myfyrwyr ac ni ddyfernir unrhyw radd heb gadarnhad arholwr allanol perthnasol. Defnyddir sylwadau a chynngor arholwyr allanol i sicrhau safonau gwobrau unigol ac i gynorthwyo i gynnal safonau ar lefel rhaglen, ysgol a sefydliad drwy adolygiadau gwerthusol blynyddol ar eu hadroddiadau. Ar sail y dystiolaeth a welwyd, roedd y tîm adolygu'n ystyried bod y defnydd a wnaed o arholwyr allanol a'u hadroddiadau'n effeithlon wrth gynorthwyo i sicrhau safonau academaidd.

176 Yn ychwanegol at arholwyr allanol, roedd y Brifysgol yn gwneud defnydd helaeth o farn allanol wrth sicrhau safonau ei graddau. Gofynnir am farn arbenigwyr allanol yn y broses o gymeradwyo rhaglenni newydd a'r cylch parhaus o adolygu rhaglenni'n gyfnodol. Mae nifer mawr o raglenni a gynigir gan y Brifysgol yn cael eu hachredu gan gyrff cyhoeddus allanol neu gyrff statudol. Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd o'r gyrff hyn fel gwiriad pellach o safonau ei gwobrau.

177 Mae'r Brifysgol wedi cadarnhau ei gallu i fonitro'r safonau a gyflawnir gan fyfyrwyr drwy fuddsoddi mewn cronfa ddata i fyfyrwyr (SIMS) a sefydlu Pwyllgor Gwobrau a

Chynnydd. Ar ôl problemau ar y dechrau, mae defnyddioldeb SIMS yn cynyddu ac mae adroddiadau ar gael yn awr ar lefel rhaglen, ysgol a sefydliad i gefnogi prosesau fel adolygiadau blynyddol. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n weithredol i werthuso ei safonau o safbwynt cydraddoldeb ac amrywiaeth.

178 Mae'r Brifysgol yn defnyddio'r un trefniadau i sicrhau safonau yn ei darpariaeth gartref a chydweithiol. Hefyd, mae'n cydnabod y risgiau sy'n codi o gydweithio ac mae wedi gwella rhai o'i gweithdrefnau i gyfateb i hyn, er enghraifft, drwy helaethu'r broses o gymeradwyo rhaglenni ar gyfer darpariaeth gydweithiol. Ar hyn o bryd, mae lefel gweithgaredd cydweithiol yn isel iawn ond dylid ei gynyddu yn y dyfodol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y byddai'n ddymunol i'r Brifysgol ddatblygu mwy o eglurder ar y gwahanol fathau o gydweithio sy'n digwydd a hefyd dylai ystyried ymhellach helaethu ei phrosesau sicrwydd ansawdd safonau o safbwynt darpariaeth gydweithiol.

179 Mae'r Brifysgol yn nodi yn ei dogfen hunan-werthuso bod 'ganddi hyder yn y strwythurau sy'n sicrhau safonau ei gwobrau'. Ar sail y dogfennau a ddarllenwyd a'r trafodaethau gyda'r staff a'r myfyrwyr, roedd y tîm adolygu'n cadarnhau'r farn hon.

Effeithlonrwydd gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cefnogi dysgu

180 Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth yn darparu'r adeiledd i gefnogi'r llyfrgell a thechnoleg gwybodaeth ar y cyd gyda'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau Ffisegol ac Ariannol, ysgolion academiaidd a budd-ddeiliaid eraill. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn fodlon iawn gyda'r cyfleusterau dysgu, yn arbennig cyfleusterau'r llyfrgell, mynediad i gyfrifiaduron a chefnogaeth technoleg gwybodaeth. Mae'r defnydd o'r amgylchedd dysgu rhithwir hefyd yn cael ei ganmol yn gyffredinol, er bod rhywfaint o amrywiaeth wedi'i nodi yn dibynnu ar lefel cyfraniad staff o fewn yr ysgolion.

181 Mae'r Brifysgol wedi gweithredu Strategaeth Amgylchedd Dysgu strategol ar gyfer cynllunio a chyflenwi pob agwedd o'r amgylchedd dysgu gan gynnwys darpariaeth llyfrgell a thechnoleg gwybodaeth. Mae cynlluniau strategol dwy ysgol y llwybrau thematig yn awgrymu bod cynnydd da wedi'i wneud wrth gyflawni'r agenda hon. Roedd yr ymagwedd integredig wedi profi'n effeithlon i sicrhau cyflenwi adnoddau cymorth dysgu ar gyfer yr amrediad llawn o raglenni astudio.

182 Fodd bynnag, thema sy'n codi phen yw diffyg ac ansawdd gofod ffisegol. Mae'r Dadansoddiad Crynodol o Gynlluniau Strategol Ysgolion 2007 yn adlewyrchu ar y sefyllfa hon a'r camau sy'n cael eu cymryd gan y Brifysgol i ddelio â'r mater hwn. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod materion gofod yn ystyriaeth faterol ac roedd yn annog y Brifysgol i barhau i geisio cael hyd i'r atebion mwyaf priodol.

183 Yr ysgolion academiaidd sydd â'r prif gyfrifoldeb dros gyflenwi arweiniad academiaidd. Mae cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau o fewn y cwricwla'n cael eu cefnogi gan weithdai ychwanegol, cyrsiau rhydd-sefyll a chyfleoedd i fyfyrwyr fod yn rhan o gynlluniau datblygiad personol. Mae cynlluniau datblygiad personol yn ddewisol heblaw lle mae gofyn amdany'n nhw o fewn cwrs achrededig.

184 Agwedd bwysig o'r holl ddarpariaeth addysgu, is-radd ac ôl-radd, yw'r system Tiwtor Personol ar draws y Brifysgol. Mae hon yn gweithredu o fewn ysgolion. Er bod barn y myfyrwyr ar hon yn gymysg, wrth ei hystyried gyda'r cymorth a roir gan yr

holl staff academiaidd, y farn gyffredinol yw bod myfyrwyr yn derbyn cefnogaeth dda'n gyffredinol. Nodwyd rhywfaint o amrywiad, fodd bynnag, yn nhermau ansawdd a chyflymder adborth academiaidd ar waith a gyflwynwyd.

185 O safbwynt lles personol, mynegir boddhad cyffredinol yn nhermau'r cymorth a ddarperir gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Fodd bynnag, gwelwyd rhai diffygion o safbwynt ansawdd darpariaeth yng Nghampws y Waun. Mae Undeb y Myfyrwyr a hefyd y Brifysgol yn cymryd camau i ddelio â'r rhain ac maen nhw'n ceisio gwneud gwelliannau i adeiledd y Campws er mwyn hyrwyddo gwell trefniadau.

186 Mae'r adborth ar drefniadau goruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-radd yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn. Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu ar gyfer gofynion arbennig myfyrwyr rhyngwladol, yn arbennig yn ystod prosesau sefydlu. Yn achos rhai ysgolion, fodd bynnag, mae'n bosibl bod cyfleoedd defnyddiol i wella'r trefniadau ar gyfer cymorth personol ar lefel fwy lleol a hoffai'r tîm adolygu annog strategaeth o'r fath.

187 Mae'r trefniadau ar gyfer penodi, gwerthuso a gwobrwyo staff yn sicr hefyd gyda meini prawf clir i gydnabod cyflawniadau mewn addysgu ar bob lefel dyrchafiad. Mae'r trefniadau ar gyfer cymorth i staff a datblygiad proffesiynol yn nodedig iawn ac yn cael eu tanategu gan raglen gynhwysfawr o gyrsiau a gweithdai cefnogol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod hyfforddiant priodol ar gael ar gyfer myfyrwyr ymchwil sy'n addysgu mewn ysgolion gyda chysiau ar sgiliau addysgu, arddangos ac asesu wedi'u cydlynu gan ysgolion graddedigion y Brifysgol.

Cyfranogiad allanol mewn trefniadau sicrwydd ansawdd mewnol

188 Barn y Brifysgol yw ei bod yn defnyddio cyfranogiad allanol yn ystod camau allweddol i roi hyder bod ansawdd a safonau rhaglenni newydd yn briodol ac i ganfod cyfleoedd i wella. Penodir ffrindiau beirniadol yn ystod datblygu rhaglen a phenodir safonwyr allanol yn ystod y cymeradwyo. Mae'n bosibl bod dechrau datblygu rhaglen newydd hefyd wedi'i hysbysu gan arholwyr allanol ar raglenni presennol, digwyddiadau cyrff proffesiynol neu statudol neu fyrddau cynghori diwydiannol.

189 Gwelir datganiadau hyder mewn adrannau eraill o'r ddogfen hunan-werthuso am gyfraniad mewnbynau allanol i'r broses adolygu cyfnodol a newid rhaglenni lle nodir amrediad tebyg o gyfraniad allanol.

190 Penodir arholwyr allanol i raglenni presennol ac maen nhw'n adrodd yn ôl drwy ddefnyddio ffurf strwythuredig i sicrhau bod amrediad o fewnbwn yn cael ei ystyried. Caiff arholwyr allanol lawlyfr yn amlinellu eu cyfrifoldebau ac yn nodi meincnodau allanol priodol fel y datganiad meincnod pwnc. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn bwydo i mewn i'r broses Adolygu a Gwerthuso Rhaglenni Blynyddol ac yn dilyn cyfnod o ddadansoddi a distyllu, llunnir adroddiad cyffredinol; penodir arholwyr allanol hefyd ar gyfer arholi graddau ymchwil.

191 Dywed y Brifysgol bod y gweithdrefnau hyn yn rhoi hyder yn ei hansawdd a'i safonau a chred y tîm adolygu bod sylfaen da i'r hyder hwn.

Defnydd y sefydliad o gyferbwyntiau cenedlaethol

192 Fel sefydliad yng Nghymru, disgwylir i Gaerdydd gymryd rhan mewn amrediad ehangach o gyferbwyntiau cenedlaethol na'u cymheiriaid yn Lloegr. Adlewyrchir polisiâu a blaenoriaethau Grŵp Cynulliad Cymru yn strategaeth y Brifysgol. Mae gan y Brifysgol gynllun laith Gymraeg sy'n cyflawni gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

193 Drwy'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, mae'r Brifysgol yn monitro datblygiadau yn yr Adeiledd Academaidd ac yn gwirio aliniad Caerdydd i'r *Cod ymarfer*. Mae system addysgol Cymru'n mynnu cydymffurfiant gyda *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* sydd ynghyd â'r FHEQ yn hysbysu polisiâu strwythurau, asesu a derbyniadau graddau'r Brifysgol. Defnyddir meincnodau pwnc, pan fydd y rhain ar gael, i hysbysu cynllun y rhaglenni. Paratoir manylebau rhaglenni ar gyfer pob cwrs drwy ddefnyddio templedi cyffredin; maen nhw ar gael yn gyffredinol ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Mae cynlluniau ar gael i ddatblygu ffeiliau cynnydd i'r holl fyfyrwyr.

194 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn gwneud defnydd llawn ac effeithlon o gyferbwyntiau allanol a'i bod yn cydymffurfio â gofynion *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Hefyd, mae'r Brifysgol yn hyrwyddo gweithredu polisiâu addysg uwch Llywodraeth Cymru.

Sylwadau ar fwriadau'r sefydliad i wella ansawdd a safonau

195 Mae ymagwedd y Brifysgol at wella'n gyson gyda'i strategaeth ansawdd a gyda'i fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli ansawdd a safonau. Ystyriodd y tîm adolygu fod y modd systematig y mae'r Brifysgol wedi ffurfioli a gweithredu ei strategaethau gwella, yn nodwedd o arfer da. Mae ymagwedd y Brifysgol tuag at wella ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr hefyd wedi'i gyfannu gyda'i hymrwymiad cadarn i ragoriaeth ymchwil a chyfraniad gweithgaredd ymchwil staff at ansawdd addysgu ac, yn fwy cyffredinol, at ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr sy'n nodwedd o arfer da.

Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth

196 Mae'r sefydliad yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth gwybodaeth gyfoes, gywir a dibynadwy ar gyfer budd-ddeiliaid a'r angen am sicrhau ei bod yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd. Ceir adborth yn rheolaidd drwy sawl dull gan gynnwys holiaduron electronig a grwpiau ffocws gyda gwybodaeth ychwanegol yn deillio o Brosiect Q. Mae adroddiadau arholwyr allanol hefyd yn rhoi elfen o sicrwydd ansawdd bwysig yn y cyd-destun hwn.

197 Er bod gan y Gyfarwyddiaeth Datblygiad Strategol gyfrifoldeb mawr o safbwynt sicrwydd ansawdd ar lefel brifysgol, datganolwyd y cyfrifoldeb dros wirio cywirdeb gwybodaeth ysgol i'r ysgolion eu hunain yn y lle cyntaf gan roi cyfrifoldeb arbennig ar yr olaf i sicrhau cyfathrebu effeithlon gyda'r Gyfarwyddiaeth.

198 Yn gyffredinol, ystyrir bod ansawdd llawlyfrau'r myfyrwyr a gwybodaeth arall sy'n benodol i ysgol yn ddibynadwy ac o ansawdd cyson priodol ar draws y Brifysgol. Nododd y myfyrwyr rywfaint o amrywiaeth ym mynegiant y meini prawf asesu, fodd bynnag, a gallai hyn fod yn bwnc sylw pellach fel rhan o agenda wella'r Brifysgol.

Mae problem hefyd gyda phrydlondeb rhai cyhoeddiadau, sef y rhai sy'n benodol berthnasol i fyfyrwyr yn ystod y prosesau sefydlu. Bwriad newid diweddar i system gofrestru ar lein yw cywiro nifer o heriau a nodwyd yn y cyd-destun hwn.

199 Mae profiad y myfyrwyr o wybodaeth gyhoeddedig ar lefel ysgol a phrifysgol yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn ac roedd archwiliad y tîm adolygu ei hun o'r deunyddiau, yn cytuno â'r farn hon.

Defnyddio'r ddogfen hunan werthusiad fel darlun o allu'r sefydliad i ystyried ei gryfderau a'i gyfyngiadau ei hun, a gweithredu ar y rhain er mwyn gwella ansawdd a safonau

200 Gwelodd y tîm adolygu fod y ddogfen hunan-werthuso'n ddogfen ddefnyddiol a chynhwysfawr oedd yn adlewyrchu cymhlethdod y sefydliad a'i hanes diweddar. Er bod cynnwys gwerthusol y ddogfen hunan-werthuso'n gyfyng, roedd yn rhoi adroddiad clir o'r materion roedd yn rhaid i'r Brifysgol ddelio â hwy o ganlyniad i'r newidiadau sylweddol oedd wedi digwydd dros y saith blynedd ddiwethaf ac oddi ar yr archwiliad blaenorol.

Nodweddion o arfer da

201 Nodwyd y nodweddion o arfer da canlynol:

- ffurfioli a gweithredu strategaethau gwelliannau'r Brifysgol yn systematig (paragraff 33).
- cyfraniad gweithgaredd ymchwil staff i ansawdd addysgu ac i ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr yn gyffredinol (paragraff 33).
- integreiddio datblygu rhaglenni gyda chynllunio strategol ac adnoddau (paragraff 36).
- y trefniadau a sefydlwyd gan y Brifysgol i sicrhau cyfranogiad myfyrwyr mewn prosesau sicrwydd ansawdd a phwyllgorau lefel sefydliad (paragraff 104).
- y bartneriaeth effeithlon rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i wella ansawdd profiad dysgu myfyrwyr (paragraff 108).
- yr ymagwedd systematig at gymorth i staff a datblygiad proffesiynol (paragraff 124).

Argymhellion ar gyfer gweithredu

202 Argymhellion ar gyfer camau a fyddai'n llesol:

- Sicrhau bod cylchoedd gweithgaredd yr adolygiad, ar gyfer yr Adolygiad Cyfnodol ac Ail-ddilysu a'r Adolygiad Cynnydd Ansawdd, yn digwydd o fewn yr amserlenni a nodwyd yng ngweithdrefnau'r Brifysgol (paragraffau 44, 48, 169).

203 Argymhellion ar gyfer camau a fyddai'n ddymunol:

- ystyried yr angen am atebolrwydd i Senedd y pwyllgorau lefel ysgol yng nghyd-destun fframwaith y Brifysgol ar gyfer rheoli ansawdd a safonau academiaidd (paragraffau 28, 65, 173)

- adolygu'r polisiau a'r gweithdrefnau darpariaeth gydweithiol i sicrhau bod y risgiau cysylltiedig yn y maes gweithgaredd hwn yn cael eu canfod a'u rheoli'n briodol (paragraffau 157, 172).

Atodiad

Ymateb Prifysgol Caerdydd i'r adroddiad ar yr adolygiad sefydliadol

Mae Prifysgol Caerdydd yn croesawu darganfyddiadau'r adroddiad ar yr adolygiad Sefydliadol. Mae'n falch bod hyder wedi'i fynegi yn y modd y mae'r Brifysgol yn rheoli ansawdd a safonau academaidd ac yng nghywirdeb y wybodaeth y mae'n ei chyhoeddi. Hefyd, mae'r Brifysgol yn falch o nodi bod yr adroddiad yn canfod nifer o enghreifftiau o arfer da gan gynnwys strategaethau gwella'r Brifysgol; partneriaeth effeithlon rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i wella profiad dysgu myfyrwyr; cyfraniad ymchwil staff i ansawdd addysgu a dysgu; a'r ymagwedd systematig tuag at gymorth i staff a datblygiad proffesiynol.

Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i ystyried y tri argymhelliad yn yr adroddiad. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y nodweddion arfer da a amlygwyd fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

Hoffai'r Brifysgol ddiolch i'r tîm am y modd trylwyr ac adeiladol y cynhaliwyd yr adolygiad.